

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich  
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please  
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

#### Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate

Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694

Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democraidd

Ein cyf / Our ref:

Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Gwener, 24 Mehefin 2022

### **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol o bell trwy Timau Microsoft ar **Dydd Iau, 30 Mehefin 2022 am 09:30.**

#### **AGENDA**

1. Ethol Cadeirydd 5 - 8
2. Ymddiheuriadau am absenoldeb  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
3. Datganiadau o fuddiant  
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
4. Cymeradwyaeth Cofnodion 9 - 46  
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 01/12/21, 12/01/22 a 02/03/22
5. Galw Penderfyniad y Cabinet i Mewn: Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar ôl 2024 47 - 68  
Gwahoddwyr:  
  
Cyngorydd Hywel Williams – Aelod Cabinet - Adnoddau  
Cyngorydd John Spanswick - Aelod Cabinet – Cymunedau  
  
Mark Shephard - Prif Weithredwr  
Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau  
Carys Lord - Pennaeth Cyllid, Perfformiad a Newid  
Zak Shell - Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol
6. Canlyniad Cyllideb Refeniw 2021-22 69 - 108

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

## Gwahoddwyr:

Cynghorydd Huw David – Arweinydd y Cyngor  
Cynghorydd Jane Gebbie – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar  
Cynghorydd Hywel Williams – Aelod Cabinet - Adnoddau  
Cynghorydd Jon-Paul Blundell - Aelod Cabinet – Addysg  
Cynghorydd John Spanswick - Aelod Cabinet – Cymunedau  
Cynghorydd Neelo Farr – Aelod Cabinet – Adfywio  
Cynghorydd Rhys Goode - Aelod Cabinet - Llês a Chenedlaethau Dyfodol

Mark Shephard - Prif Weithredwr  
Carys Lord - Pennaeth Cyllid, Perfformiad a Newid  
Lindsay Harvey - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd  
Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles  
Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau  
Kelly Watson - Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

7. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol 109 - 112
8. Enwebiad i Banel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 113 - 116
9. Diweddariad Rhaglen Gwaith 117 - 124
10. Materion Brys  
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â [cabinet\\_committee@bridgend.gov.uk](mailto:cabinet_committee@bridgend.gov.uk) neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant

**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

## **Dosbarthiad:**

### Cynghowrwy

H T Bennett  
F D Bletsoe  
P Davies  
RM Granville

### Cynghorwyr

S J Griffiths  
M L Hughes  
M Jones  
RL Penhale-Thomas

### Cynghorwyr

T Thomas  
G Walter  
A Williams  
AJ Williams

## BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

### REPORT TO CORPORATE OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEE

30 JUNE 2022

#### REPORT OF THE CHIEF OFFICER – LEGAL & REGULATORY SERVICES, HR & CORPORATE POLICY

##### ELECTION OF CHAIR

### 1. Purpose of report

- 1.1 The purpose of this report is to receive nominations and appoint a Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee.

### 2. Connection to corporate well-being objectives / other corporate priorities

- 2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:
1. **Supporting a successful sustainable economy** – taking steps to make the county borough a great place to do business, for people to live, work, study and visit, and to ensure that our schools are focussed on raising the skills, qualifications and ambitions for all people in the county borough.
  2. **Helping people and communities to be more health and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.
  3. **Smarter use of resources** – ensure that all resources (financial, physical, ecological, human and technological) are used as effectively and efficiently as possible and support the creation of resources throughout the community that can help to deliver the Council's well-being objectives.

### 3. Background

- 3.1 As part of the Overview and Scrutiny Committee structure the membership of the Corporate Overview and Scrutiny Committee consists of the Chairs of each Subject Overview and Scrutiny Committee and nine other Members that reflect the political balance of the Authority.
- 3.2 The Local Government (Wales) Measure 2011 established procedures whereby Overview and Scrutiny Committee Chairs are nominated and appointed. The Measure requires that as a minimum, the Chairpersons of these Committees be appointed based on the size and political balance of each of the groups that make up the Council. At the Annual Meeting of Council on 18 May 2022, Councillors Alex Williams, Freya Bletsoe and Paul Davies were appointed as the Chairpersons of Subject Overview and Scrutiny Committees 1 to 3 respectively. The Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee is unallocated and therefore, in

accordance with the Measure, is to be appointed by the Members of the Committee from one of the Chairpersons of the Subject Overview and Scrutiny Committees, but it cannot be the Chairperson nominated from the same Group as the Executive.

#### **4. Current situation/proposal**

- 4.1 The Committee is requested to receive nominations and appoint a Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee in accordance with the provisions set out at paragraph 3.2 above.
- 4.2 Should the appointed Chair of the Corporate Overview and Scrutiny Committee be unable to attend a meeting, it is for the Committee to appoint a Chair at the meeting in accordance with the Council's Constitution.

#### **5. Effect upon policy framework and procedure rules**

- 5.1 The work of the Overview and Scrutiny Committees relates to the review and monitoring of plans, policy or strategy that form part of the Council's Policy Framework and consideration of plans, policy or strategy relating to the power to promote or improve economic, social or environmental wellbeing in the County Borough of Bridgend. Any changes to the structure of the Scrutiny Committees and the procedures relating to them would require the Bridgend County Borough Council Constitution to be updated.

#### **6. Equality Act 2010 implications**

- 6.1 The protected characteristics identified within the Equality Act, Socio-economic Duty and the impact on the use of the Welsh Language have been considered in the preparation of this report. As a public body in Wales the Council must consider the impact of strategic decisions, such as the development or the review of policies, strategies, services and functions. It is considered that there will be no significant or unacceptable equality impacts as a result of this report.

#### **7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 implications**

- 7.1 The Act provides the basis for driving a different kind of public service in Wales, with 5 ways of working to guide how public services should work to deliver for people. The following is a summary to show how the 5 ways of working to achieve the well-being goals have been used to formulate the recommendations within this report:

- Long Term - The Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee will assist in the long term planning of the business of the Council
- Prevention – The Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee will be preventative in nature and ensure that appropriate policies and procedures are in place
- Integration – This report supports all the well-being objectives

- Collaboration - The Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee will support partnership working with other organisations both locally and regionally
- Involvement – The Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee will promote the full involvement of external stakeholders, service users, expert witnesses and partners in scrutiny activity

## 8. Financial implications

8.1 There are no financial implications arising from this report.

## 9. Recommendation

9.1 The Committee is requested to receive nominations and appoint a Chairperson of the Corporate Overview and Scrutiny Committee in accordance with the provisions set out in paragraph 3.2 of this report.

Kelly Watson

**Chief Officer – Legal & Regulatory Services, HR & Corporate Policy**

24 June 2022

**Contact Officers:** Meryl Lawrence  
Senior Democratic Services Officer - Scrutiny

Lucy Beard  
Scrutiny Officer

Jessica McLellan  
Scrutiny Officer

**Telephone:** (01656) 643515 / 643613 / 643263

**Email:** [scrutiny@bridgend.gov.uk](mailto:scrutiny@bridgend.gov.uk)

**Postal address:** Democratic Services - Scrutiny  
Bridgend County Borough Council  
Civic Offices  
Angel Street  
Bridgend  
CF31 4WB

**Background documents:** None

This page is intentionally left blank

# Agenda Item 4

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 1 RHAGFYR 2021

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 1 RHAGFYR 2021, AM 09:30

## Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

JPD Blundell	J Gebbie	DG Howells	M Jones
RL Penhale-Thomas	RMI Shaw	JC Spanswick	T Thomas
A Williams	AJ Williams		

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D Patel

## Swyddogion:

Lucy Beard	Scrutiny Officer
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu

## Gwahoddedigion:

Cynghorydd Nicole Burnett	
Cynghorydd Huw David	Arweinydd
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Cynghorydd Charles Smith	Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio
Cynghorydd Hywel Williams	Aelod Cabinet Adnoddau

## 46. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 47. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 1 Medi 2021 yn gofnod gwir a chywir.

## 48. MONITRO CYLLIDEB 2021-22 - RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw Chwarter 2 a dderbyniwyd gan y Cabinet ym mis Hydref, ac a oedd yn mesur gwariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb. Roedd y gyllideb wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021 ac roedd y gyllideb net yn £298.9M, a dyma oedd yr adroddiad monitro ail chwarter yn erbyn y gyllideb. Dywedodd na fu erioed gyfnod mor ansicr o ran y sefyllfa ariannol. Dywedodd ei bod yn hapus i roi manylion y sefyllfa bresennol gan fod Chwarter 2 wedi bod ar ddiwedd mis Medi a bod pethau wedi newid yn gyflym. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhai negeseuon croes gan fod yna danwariant sylweddol o ran y sefyllfa tymor byr, ond rhai pwysau sylweddol o ran y sefyllfa tymor canolig.

Eglurodd y Swyddog fod tabl 1 yn grynodedb o'r brif sefyllfa ac yn dangos tanwariant net rhagamcanol o £2M a oedd yn cynnwys cyllid a ragwelir o'r gronfa caledi am ail hanner y flwyddyn. Dywedodd eu bod wedi bod yn llwyddiannus bob mis wrth gael y rhan fwyaf o'u costau ychwanegol yn ôl a fyddai'n cynyddu'r tanwariant rhagamcanol yn chwarter tri a bod y tanwariant yn cuddio'n sylweddol y pwysau cyllidebol sylfaenol sy'n parhau yn 2021-22 ac y byddai'n sicr yn parhau yn 2022-23 ac ymlaen.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid at y pwyntiau cyfeirio a ganlyn yn yr adroddiad:

- Ym Mharagraff 4.1.4 roedd gorwariant sylweddol o dros £2M ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.
- Roedd paragraff 4.1.5 yn cyfeirio at y pwysau ym maes gofal cymdeithasol a dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod wedi derbyn grant adfer o £1.7M ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ond roedd wedi codi i £2.9M ers hynny.
- Ym mharagraff 4.1.6 roedd y Cyngor wedi cymeradwyo twf o dros £2M ar gyfer digartrefedd yn y gyllideb gan wybod y byddai pwysau sylweddol arnynt wrth symud ymlaen oherwydd y rheoliadau newydd a'r pandemig. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid drwy'r gronfa caledi COVID ar gyfer digartrefedd, yr oedd y Cyngor wedi'i hawlio'n llwyddiannus. Nid oedd disgwyl iddo barhau drwy'r flwyddyn, felly roedd ganddynt danwariant sylweddol ar y gyllideb honno yn y tymor byr. O ran llety dros dro, roedd tua 200 o deuluoedd, 370 o unigolion, yn dal i fod angen llety, felly, er bod y gyllideb yn edrych yn iawn, roedd darparu gwasanaeth yn y tymor canolig yn risg uchel i'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyngor wedi sefydlu cronfa Adfer Covid o £1M a oedd yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer materion megis parcio am ddim yng nghanol y dref ac ildio ffioedd chwaraeon. Dywedodd eu bod wedi llwyddo i gael mwy o ran colli incwm a mwy o ran hawliadau gwariant felly byddai sefyllfa chwarter tri yn gwella. Roedd casglu'r dreth gyngor a hawliadau am ostyngiad yn y dreth gyngor wedi'u monitro'n agos, ac nid oedd unrhyw gyllid ychwanegol yn debygol o gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fyddai'r sefyllfa'n gliriach. Byddai'n dibynnu ar y sefyllfa ar draws y ddau ar hugain o awdurdodau lleol p'un a fyddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer colli'r dreth gyngor.

Pan osodwyd y gyllideb, roedd CPI wedi bod yn 0.7 y cant ac roedd wedi codi i 4.2 y cant a fyddai'n cael effaith sylweddol ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Byddai cyllid yn cael ei ryddhau ar gyflog athrawon, wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan arian grant nad oedd wedi'i ddisgwyl, ac roedd arian wedi'i neilltuo ar gyfer dyfarniad cyflog yr NJC pan fyddai cytundeb ar hynny. Dywedodd eu bod yn dal yn debygol o fod angen gostyngiadau yn y gyllideb wrth symud ymlaen gan y byddai'n debygol y byddai gostyngiadau sylweddol yn yr arian a fyddai'n dod i law yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, a byddai lefel debygol yr arbedion y byddai eu hangen yn dibynnu ar y setliad. Eglurodd fod crynodeb o'r sefyllfa ariannol wedi'i nodi yn 4.3 ac roedd hwnnw'n manylu ar bob un o'r Cyfarwyddiaethau a'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a ddangosir yn nhabl 6. Roedd yn dymuno atgoffa'r Aelodau bod y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddiben penodol, ac nad oeddynt i'w defnyddio at wahanol ddibenion ac yn arbennig nid i gynnal y dreth gyngor. Roedd modd eu defnyddio ond dim ond at y diben y cawsant eu neilltuo ar eu cyfer.

Lle bynnag y bo modd, roeddent yn ymdrechu i ychwanegu at eu cronfa gyfalaf wrth gefn, roeddent yn brin ar dderbyniadau cyfalaf fel Cyngor ac yn uchelgeisiol iawn o ran yr hyn yr hoffent ei wneud. Os oedd ganddynt unrhyw danwariant tymor byr, roeddent yn ceisio ei drosglwyddo i gronfa gyfalaf wrth gefn i'w galluogi i gyflawni'r cynlluniau a'r rhaglenni uchelgeisiol hynny.



Daeth y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid i ben drwy ddweud bod balansau ysgolion yn £8.5M ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn 2021 ar ôl iddynt osod y gyllideb. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd wedi gostwng i £4M a byddai'n symud ymhellach fyth gan fod rhai o'r balansau hynny'n cael eu defnyddio i'r diben dros eu rhoi.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Swyddog Dros Dro Cyllid, Perfformiad a Newid am ei chyflwyniad, ac yn dilyn hynny gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

Tynnodd Aelod sylw at y pwysau ar y gyllideb cludiant o'r cartref i'r ysgol heb ystyried Covid a holodd a oedd Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet yn teimlo y dylai fod persbectif tymor hwy yn y maes hwnnw, ac a ellid dod â chludeiant o'r cartref i'r ysgol i ryw raddau yn fewnol er mwyn osgoi rhai o'r materion caffael a gafodd eu pennu gan ffactorau allanol. Roedd yn broblem dro ar ôl tro lle cafwyd gorwariant sylweddol, ac roedd gan yr Aelod ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau Swyddogion ar yr hyn y gallent ei wneud wrth symud ymlaen.

Ychwanegodd Aelod y bu cynnydd parhaus mewn tacsis a bysiau mini ychwanegol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y sefyllfa dan reolaeth, a'r broblem oedd bod yna alwadau a phwysau ychwanegol o ran anghenion cyllidebol yn y maes. O ran y persbectif hirdymor, roeddent yn ceisio edrych ar ymestyn contractau tymor hwy mewn cylchoedd caffael mwy diweddar. Dywedodd fod angen i'r safbwynt hirdymor gael ei lywio gan bolisi a'u bod yn disgwyl am adroddiad Llywodraeth Cymru ar gludiant o'r cartref i'r ysgol a oedd wedi'i ohirio ond a fyddai'n llywio ac yn dylanwadu ar eu safbwynt polisi wrth symud ymlaen. Eglurodd fod yna ddwy elfen a oedd yn gymhleth, gan gyfeirio'r Aelodau at Atodiad un oedd yn cyfeirio at bwysau'r flwyddyn flaenorol, materion gweithredol oedd yn achosi pryder o fewn y gyllideb, yn ogystal â goblygiadau polisi ehangach ynglŷn â theithio meithrin a phob agwedd ar wariant anstatudol yn y maes hwnnw.

Mewn perthynas â'r pwynt a wnaed ynghylch bysiau mini a thacsis, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd eu bod ym mhob achos yn cael eu harwain gan alw. Esboniodd fod ganddynt ystod o ddyletswyddau a bod angen iddynt fel Awdurdod Lleol sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol. Roedd angen trafnidiaeth fach ychwanegol o ran darpariaeth feithrin ac eto roedd wedi ychwanegu at y gost o ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr, ond daeth i ben drwy ddweud eu bod yn monitro'n agos iawn pob achos.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio bod angen safbwynt hirdymor oherwydd pedair neu bum mlynedd yn ôl gwnaed penderfyniad llymder ar gludiant ysgol i dorri'n ôl fesul cam ac roedd y canlyniad yn dal i effeithio ar bobl ifanc nawr. Eglurodd fod cludiant ysgol yn fater cymhleth ac nid mor syml ag yr edrychai a bod pob math o ganlyniadau anfwriadol amlwg ac nid mor amlwg i'r cynigion. Roedd y Cabinet wedi penderfynu peidio â gwneud toriad yn ddiweddar ac wedi penderfynu y byddent yn goddef y pwysau ar gyllidebau am y tro gan eu bod yn aros am adolygiad o gludiant o'r cartref i'r ysgol gan Lywodraeth Cymru. Daeth i ben drwy ddweud wrth aros am yr adolygiad hwnnw na fyddai'n ddoeth iddynt wneud unrhyw benderfyniadau enfawr ar gludiant o'r cartref i'r ysgol a allai fod yn rhaid eu gwrthdroi pe bai'r meini prawf yn newid.

Mynegodd Aelod fod angen iddynt fod yn edrych ar lwybrau diogel i ysgolion gan eu bod yn talu am fysiau lle nad oedd llwybrau diogel. Teimlai fod angen iddynt gael dull cydgysylltiedig fel Cyngor ac edrych ar y dalgylchoedd.

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad ar gyfer Chwarter 2, hyd at 30 Medi, a'u bod dau fis i mewn i chwarter tri, felly dim ond adlewyrchu ar y gwariant blaenorol yr oeddent i ryw raddau. Nododd fod paragraff 9.1 o'r adroddiad yn nodi, 'gofyn i'r aelodau nodi'r sefyllfa referniw a ragwelir ar gyfer 2021-2022.' Ond credai efallai y gallai fod wedi darllen 'nodi'r sefyllfa bresennol chwarter dau wrth iddynt symud ymlaen i ddiwedd y gyllideb ar gyfer 2021-2022 a'r ffigurau hyd yn hyn.' Cyfeiriodd at y tanwariant sylweddol ac roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o bwysau cyllidebol a allai newid hynny, felly awgrymodd y gellid bod wedi amlinellu beth allai'r sefyllfa referniw ragamcanol fod ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yn ymwybodol ei fod yn gwestiwn agored mewn cyfnod ansicr a gan fod pethau'n newid mor gyflym, roedd ganddynt danwariant sylweddol yn y tymor byr ond pwysau cyllidebol yn y tymor hir. Daeth i'r casgliad y gallai fod yn bryd ystyried gohirio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) nes eu bod yn deall y sefyllfa'n well, yn enwedig wrth iddynt symud drwy'r pandemig.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid na allai or-bwysleisio'r anhawster o ran amcangyfrif ble gallent fod ar ddiwedd y flwyddyn. Mynegodd ei diolch am y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac ni allai honni y byddent wedi goroesi'n hawdd drwy'r cyfnod anodd hwnnw hebdo. Yr anhawster oedd ei reoli a delio ag ef os mai peth tymor byr ydoedd ac angen ei wario erbyn diwedd y flwyddyn, byddai o natur dros dro a byddai mwy na 75% o'u cyllideb ar bobl a staff a chael staff yn eu lle yn gyflym. Eglurodd, o ran amseru, nad oedd hi'n meddwl bod oedi mawr a'u bod wedi ceisio diweddarau lle bo'n bosibl y sefyllfa a oedd wedi newid. Roedd yr holl newidiadau bryd hynny yn y tymor byr yn cynyddu'r tanwariant hwnnw felly byddai ganddynt symiau sylweddol o gyllid tymor byr, llawer a fyddai'n chwyddo eu sefyllfa tanwariant. Yn ddi-os erbyn chwarter tri byddent yn dweud y byddai'r sefyllfa diwedd blwyddyn yn dibynnu ar ba mor llwyddiannus yr oeddent wedi gwario rhywfaint o'r arian a dderbyniwyd at y dibenion cywir, felly ni fyddai'n fater o gael gwared ar arian yn unig, byddai diben penodol iddo ac roedd yn rhaid iddynt geisio'n ofalus i gael eu hunain i le y gallant ei wario'n llwyddiannus. Nid oedd eisiau rhoi'r argraff nad oedd popeth o dan reolaeth ac nid oedd yn rhywbeth yr oedd hi'n meddwl y dylent ei ystyried o ran atal yr MTFS. Roedd angen iddynt gynllunio a rhagweld o hyd lle'r oedd y pwysau sylweddol, roedd y sefyllfa sylfaenol a'r cywirdeb o ran lle'r oeddent yn dal yn gyflawn, fodd bynnag, roedd y swm enfawr o gyllid tymor byr ar gyfer y gwahanol feysydd yn cuddio'r sefyllfa.

Dywedodd yr Aelod fod rhai aelodau o'r cyhoedd yn credu bod gan y Cyngor gyllid sylweddol ac awgrymodd ei fod yn gyfle iddynt drafod beth oedd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd bod yr Awdurdod yn ddarbodus yn ei wariant a'i reolaeth o'r cronfeydd wrth gefn ac nad oedd beirniadaeth am beidio â gwario arian.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid yn syml mai arian wrth gefn wedi'i glustnodi oedd arian y gallent ei roi o'r neilltu ar gyfer diben penodol a'i ddwyn ymlaen cyn belled â bod yr arian sydd ar gael iddynt yn eu galluogi i wneud hynny. Os ydynt yn gwybod na allant ei wario neu nad oes ei angen arnynt tan y flwyddyn nesaf, neu yn wir yn y blynyddoedd i ddod, gallant wedyn neilltuo arian, sy'n gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Dywedodd eu bod yn cael eu craffu ganddi hi yn gyntaf, yna'r Tîm a thrwy'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol bob mis gan fynd trwy'r manylion a bob chwarter maent yn adrodd trwy adroddiadau monitro'r gyllideb ar y sefyllfa ar y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Pwysleisiodd fod craffu aruthrol ar yr hyn oedd yno a sgysiau gyda Chyfarwyddwyr am yr hyn sydd ei angen arnynt i'r dyfodol. Roedd Archwilio Cymru yn eu craffu hefyd ac wedi dweud eu bod yn edrych yn dda am yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'u bod yn fodlon ar eu sefyllfa ariannol.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno adeiladu ar rai pwyntiau. Yn gyntaf, dywedodd ei fod yn gyfarfod cyhoeddus, a oedd yn rhoi cyfle i'r aelodau ond hefyd y cyhoedd gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyffredinol. Dywedodd na allent atal y Strategaeth Ariannol

Tymor Canolig gan fod angen iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer amrywiaeth o senarios, a'i bod bron yn sicr y byddai ganddynt danwariant eleni. Er, yr hyn nad oeddent yn ei wybod oedd maint y tanwariant hwnnw, gan eu bod yn cael arian a oedd yn anodd ei wario yn y ffordd yr oedd yn rhaid iddynt ei wario oherwydd na allent bob amser recriwtio staff. Dywedodd na allent bob amser gomisiynu gwaith ac na allent wario'r arian o fewn yr amserlen a oedd yn cuddio'r beichiau hirdymor a oedd ganddynt a oedd hefyd yn anodd eu cynrychioli i'r cyhoedd hefyd. Dywedodd eu bod yn rhagweld amser pan fyddai cyllid Llywodraeth Cymru yn dod i ben a allai fod cyn gynted â diwedd mis Mawrth, a bod ganddynt ar ôl y pandemig i bob pwrpas batrwm gwahanol o alw ar wasanaethau'r Awdurdod, cynnydd mewn gwariant, ac ansicrwydd ar y pryd ynghylch beth fyddai'r setliadau yn y dyfodol. Roedd yr holl ragolygon yr oedd wedi'u gweld yn y tymor hwy nid yn unig yn dangos y byddai chwyddiant yn codi, ond y byddai setliadau'n mynd yn ôl i'r math o lefel y buont yn hanesyddol. Roedd angen iddynt gynllunio ar gyfer y ffaith ei fod yn sefyllfa gamarweiniol ar hyn o bryd, bod ganddynt arian i'w wario ond at ddibenion penodol ac na fyddai ganddynt yr un lefel o arian wrth symud ymlaen, sy'n ei gwneud yn anodd cael dealltwriaeth gyffredin o fewn y Cyngor, Swyddogion ac Aelodau, ond hefyd y tu allan i'r Cyngor hefyd.

Holodd Aelod am ddarpariaethau anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer Ysgol Heronsbridge ac a oedd disgwyl adennill yr arian oddi wrth awdurdodau lleol. Nododd nifer yr ysgolion cynradd mewn sefyllfa o ddiffyg a gofynnodd a allent amlinellu nifer yr ysgolion uwchradd sydd mewn sefyllfa o ddiffyg hefyd. Cydnabu fod y Cyngor yn fodlon ar y cyllid ar gyfer y digartrefedd, ac y gallai fod yn fater o aros i weld oherwydd ansicrwydd y setliad yn y dyfodol o'r gronfa caledi a chyllid y Llywodraeth Ganolog ond gofynnodd a oedd bwriad iddynt dderbyn yr arian i ailddyrrannu'r gyllideb honno. Daeth i ben drwy sôn y byddai cyhoeddiadau diweddar ynghylch y codiad yn y cyflog byw yn cael effaith ar holl staff y Cyngor, felly byddai'n hanfodol bod cyllid llywodraeth ganolog ar ddod fel arall byddent yn cael effaith sylweddol ar gyllideb eu Hawdurdod Lleol a holodd a oedd unrhyw asesiad yn cael ei wneud.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai dyna oedd yr achos o ran anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer cyllidebau ysgolion. Roedd yn wasanaeth yr oeddent yn ei weithredu ar draws awdurdodau lleol lle mae lleoedd yn dod ar gael ac yn amlwg mae awdurdodau lleol eraill yn prynu lleoedd yn Ysgol Heronsbridge a chyfleusterau eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i'r gwrthwyneb. Dywedodd pan oedd lleoedd yn cael eu llenwi'n bennaf â dysgwyr Pen-y-bont ar Ogwr nad oedd y lleoedd ar gael i awdurdodau lleol eraill, roedd yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw. Dywedodd ei bod yn gyfnod anodd i gyllidebau ysgolion, ond nid oedd wedi gweld bod un o'r ysgolion uwchradd mewn unrhyw ddiffyg sylweddol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r grantiau wedi dod at ddiben penodol yn bennaf i fynd i'r afael â rhai o heriau'r pandemig, roedd ysgolion yn defnyddio'r arian bellach yn bennaf o amgylch staffio i gefnogi rhywfaint o'u hangen, ond roedd yn her barhaus, ac yn un y byddent yn parhau i'w monitro.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid eu bod wedi achub y blaen ar y pwysau sylweddol ar y gyllideb tai. Roeddent wedi llwyddo i hawlio'n ôl yr hyn yr oeddent wedi'i wario ond nid oeddent yn dal i fod yn y sefyllfa yr oedd angen iddynt fod. Dywedodd eu bod yn gallu mantoli'r gyllideb o ran cadw pobl mewn llety dros dro a oedd yn bodloni rhan o'r ddyletswydd a osodwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, roedd nifer o lythyrau wedi dod oddi wrth y Gweinidog ynghylch digartrefedd a thai ac roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu digartrefedd. Eglurodd fod ganddynt ateb dros dro bryd hynny y gallent ei ariannu ond nad oedd yn gwybod a oedd yn ddigon i'w ariannu yn y dyfodol. Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd ganddynt ddigon o lety ond eu bod yn gweithio gyda'u partneriaid Valleys to Coast i archwilio beth y gallent ei wneud o ran eiddo gwag, yn ogystal â gweithio gyda landlordiaid preifat a bod ganddynt nifer o bolisiau yn eu lle i geisio cael llety. Roeddent

hefyd yn edrych ar ddatblygiadau bychain drwy'r Cynllun Datblygu Lleol. Daeth i ben trwy ddweud nad oedd ganddynt ddigon o eiddo ac er bod digon o lety dros dro ar y pryd, ni allai barhau gan nad oedd yn ateb boddhaol.

Dyweddodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid bod cyhoeddiad diweddar y byddai'r cyflog byw cenedlaethol yn cynyddu o fis Ebrill 2022, o £8.91 i £9.50 a oedd yn gynydd o 6.6% ac yn fwy nag yr oeddent wedi'i ragweld. Yr effaith fwyaf i'r Cyngor fyddai'r cynnydd ar eu gwasanaethau a gomisiynir yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd yr effaith yn fewnol o fewn y Cyngor gan y byddai sgil-ffaith ar y strwythur a graddfeydd tâl o ddod â'r graddfeydd cyflog pen isaf i fyny. O ran yr amcangyfrif ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, roeddent yn edrych ar bron i £1.5M, a oedd yn rhywbeth yr oeddent wedi'i ddwyn i mewn i'r MTFFS fel un o'u pwysau. Wrth symud ymlaen ar gyfer y flwyddyn nesaf byddai angen iddynt ystyried y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y byddai goblygiadau i'r Cyngor, ar gyflogwyr a gweithwyr, o'r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol newydd y mae'r Llywodraeth yn ei chyflwyno, sef pwysau arall o dros £1M, felly roedd nifer o bwysau cysylltiedig â chyflog. Yr hyn nad oeddent yn ei wybod oedd a fyddent yn cael unrhyw gyllid ar wahân / ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at unrhyw ran ohono ac a fyddai angen aros am y setliadau ddiwedd y mis i weld pa gyllid oedd wedi'i gynnwys i fodloni rhywfaint o'r pwysau.

Gofynnodd Aelod a fyddai effaith ymhellach i fyny'r llinell hefyd, pe bai'r tâl yn cael ei godi i'r rhai ar y cyflogau is a fyddent yn ehangu'r lefelau ymhellach i fyny hefyd. Roedd yn cefnogi bod yn gyflogwr cyflog byw yn llwyr ond roedd am wneud yn siŵr bod ganddynt yr holl wybodaeth.

Dyweddodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn amserol edrych ar y strwythur graddfeydd cyflog cyfan wrth symud ymlaen ond nid dyna oedd y bwriad ar unwaith. Roedd yn meddwl bod digon o hyblygrwydd yn ôl pob tebyg ar unwaith i ddarparu ar gyfer y cynnig cyflog byw gwirioneddol ond wrth symud ymlaen oherwydd y pwysau gwirioneddol o ran materion gweithlu a chadw recriwtio, gallai fod yn wir fod angen iddynt edrych ar y strwythur tâl a graddio i barhau yn gystadleuol.

Gofynnodd Aelod a oeddent yn gweld cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gyda ffyrlo yn dod i ben ddiwedd mis Medi, neu a fyddai'n rhy fuan i weld a oedd yn gwneud gwahaniaeth.

Dyweddodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid y bu disgwyliad dros y flwyddyn ddiwethaf y byddent, ond mae'n debyg mai'r ateb oedd na, ddim mor sylweddol ag y buont yn ei ragweld, er mai dyddiau cynnar oedd hi, ac y byddent mewn sefyllfa llawer gwell tua diwedd y flwyddyn.

Cyfeiriodd Aelod at y galw cynyddol ar y gwasanaeth digartrefedd, a pholisi Llywodraeth Cymru a oedd yn gofyn am lety en-suite a gofynnodd a oeddent yn meddwl y byddai hynny'n newid neu y byddai'r ddarpariaeth yn parhau.

Dyweddodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid wrth y Cadeirydd na fu unrhyw arwydd y byddai'n newid, ei fod yn dal yn ddyletswydd arnynt a'i fod yn ofyniad cymhleth. Ar gyfer llety dros dro roedd y rheoliadau'n eithaf cymhleth, a'u sefyllfa ddelfrydol fyddai cael pobl i mewn i lety cynaliadwy, mwy tymor canolig i hirdymor.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, er bod Llywodraeth Cymru wedi newid y Rheoliadau gyda chael gwared ar angen â blaenoriaeth, ei fod yn rhywbeth yr oeddent wedi bod yn edrych arno ers peth amser ond a ddaeth i mewn ychydig yn gynt oherwydd y pandemig. Roedd Llywodraeth Cymru wedi edrych ar amrywiaeth o opsiynau gwahanol ynghylch llety dros dro addas wrth symud ymlaen ond effeithiwyd ar hyn gan y ffaith bod y pandemig wedi digwydd, ac roedd angen iddynt roi pethau yn eu lle i wneud

yn siŵr eu bod yn tynnu pobl o gysgu ar y strydoedd a fyddai'n eu rhoi mewn mwy o berygl o ddal Covid. Roedd yn disgwyl gweld llawer mwy o newidiadau'n cael eu cyflwyno ynghylch yr hyn a fyddai'n llety dros dro addas, ymarferol a fforddiadwy.

Teimlai Aelod fod y Gyfadran Cymunedau wedi ysgwyddo rhan fwyaf o'r toriadau a wnaed dros y blynyddoedd ac o siarad â chydweithwyr, roedd nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gyfadran Cymunedau yn llawer uwch na meysydd eraill. Roedd yn meddwl tybed a fyddai modd iddynt edrych yn y dyfodol ar wella buddsoddiad yn y maes hwnnw wrth iddynt gael llawer o feirniadaeth gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'u bod yn talu eu treth gyngor ac ardaloedd o'u cymuned ddim yn cael eu glanhau, ac er yr heriau sydd ganddynt dros y blynyddoedd sydd angen eu cydnabod, dylid edrych ar y rhain fel rhan o strategaeth tymor hwy.

Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd yn gwybod a oedd y Gyfadran Cymunedau wedi'i thorri'n anghymesur, ond yn anochel roedd yr Awdurdod yn blaenoriaethu addysg a gofal cymdeithasol felly efallai y byddai mwy o effaith ar rai gwasanaethau eraill. Dywedodd ei fod wedi bod yn cynnal trafodaethau ynghylch sut y gallent wella ymatebolrwydd yr Adran i amrywiaeth o faterion, yn enwedig mewn atgyfeiriadau ond mewn gwirionedd i wella ymatebolrwydd gwasanaethau rheng flaen. Credai y byddai mwy o fuddsoddiad i fynd i'r afael â'r materion hynny, fodd bynnag yn y pen draw byddai hefyd yn dibynnu ar ddewisiadau gwleidyddol a ble i roi eu harian a blaenoriaethu symud ymlaen. Dywedodd ei fod wedi clywed y farn a fynegwyd gan yr Aelod gan eraill, ac efallai ei bod yn bryd meddwl am fwy o fuddsoddiad yn rhai o'r gwasanaethau rheng flaen. Y pwynt y mae'n ei wneud bob amser wrth yr Aelodau yw yn gyffredinol y byddai'n ofynnol iddynt wrthbwysu hynny yn erbyn rhywbeth arall, felly rhaid meddwl bob tro am yr hyn nad ydynt am fuddsoddi ynddo.

Cefnogodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yr hyn yr oedd y Prif Weithredwr wedi'i ddweud a dywedodd fod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn derbyn tua 83-85% o'r holl atgyfeiriadau gan Aelodau a ddaeth i mewn i'r Cyngor. Roedd ganddynt dîm bach ac roedd rhai atgyfeiriadau nad oeddent yn gorffen gydag un ymateb ond cyfnewidiadau lluosog. Dywedodd eu bod yn gweithio gyda'r tîm cymorth busnes canolog ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Chyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Roeddent yn edrych ar atgyfeiriadau i geisio cau'r rhai oedd wedi bod ar agor am y cyfnod hiraf a hefyd y dylid gweithredu'r System Atgyfeirio Aelodau newydd yn fuan lle byddai elfen o hunanwasanaeth, gan olygu y gallent ganolbwyntio ar ymholiadau mwy cymhleth a dylai fod gwybodaeth ar borth hunanwasanaeth yr Aelodau ar gyfer rhai o'r ymholiadau hawsaf. Eglurodd fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r nifer fawr o atgyfeiriadau y mae'r Gyfarwyddiaeth yn eu derbyn.

Atgoffodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid yr Aelodau, o ran buddsoddi, rai blynyddoedd yn ôl eu bod wedi rhoi £2M o'r neilltu ar gyfer buddsoddi mewn Cymunedau, mai cronfa gyfalaf ydoedd a'r flwyddyn cyn diwethaf eu bod wedi rhoi cyllideb gylchol o £2M i mewn ar gyfer tir y cyhoedd, felly bu buddsoddiad eithaf sylweddol yn fewnol. Daeth i'r casgliad hefyd y bu symiau enfawr o arian grant ar faterion megis cynnal a chadw priffyrdd ac adfywio.

Ychwanegodd Aelod y byddai cwynion sy'n mynd drwodd iddynt hefyd yn cael effaith fawr ar yr atgyfeiriadau mewn Cymunedau.

Atebodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod atgyfeiriadau aelodau yn ychwanegol at y system gwynion. Dywedodd nad oedd atgyfeiriadau weithiau'n cael eu hateb ar amser o ystyried effaith y nifer a dderbyniwyd o fewn Cymunedau, a bod atgyfeiriadau pellach yn chwilio am ymateb a gyflwynwyd yn achosi dyblygu. Gallai atgyfeiriadau fod yn ailadroddus ac yn aml roedd ymateb blaenorol wedi'i dderbyn a oedd yn berthnasol i'r un cwestiwn a ofynnwyd eto mewn atgyfeiriad newydd. Roedd swyddogion yn treulio mwy o

amser yn ateb atgyfeiriadau ac roedd y cynnydd mewn atgyfeiriadau Aelodau yn golygu eu bod yn lleihau faint o amser yr oedd Swyddogion yn mynd allan. Dywedodd y gallai'r porth aelodau newydd sy'n cael ei ddatblygu gynnig dull mwy ymarferol ac y gallai, mewn rhai achosion, leihau nifer yr atgyfeiriadau.

Ymatebodd yr Aelod trwy ddweud nad yw'n gwneud y sylwadau fel beirniadaeth o'r Gyfarwyddiaeth a'r staff gan ei fod yn cydnabod nad oedd yr adnoddau'n ddigonol i fodloni'r gofynion ac mai dyma'r cyfle i geisio mynd i'r afael â rhai o'r materion wrth symud ymlaen.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y bu rhai trafodaethau agored a gonest ynghylch perfformiad y Gyfarwyddiaeth o ran ymateb i atgyfeiriadau. Roedd lleihau nifer y staff a'r cynnydd yn y galw wedi rhoi pwysau arnynt ac yn dilyn trafodaethau roeddent yn edrych ar sut y gallent chwyntu'r system atgyfeirio aelodau fel y gallent dynnu rhai o'r rhai hyn allan. O safbwynt Swyddog, gofynnodd am fwy o ymwybyddiaeth o nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu cyflwyno, ac mae'r atebion iddynt yn aml yn debyg.

Teimlai Aelod y bu toriadau anghymesur yn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, bod effeithiau'r toriadau hynny'n cael eu gweld ac roeddent eisiau deall pam y gwnaed y toriadau hynny. Cyfeiriodd at y buddsoddiad cyfalaf a wnaed, ond er mwyn mynd i'r afael â chydnerthedd mewn rhai rhannau o'r Gyfarwyddiaeth ac effaith ôl-groniad o atgyfeiriadau byddai angen buddsoddiad refeniw, swyddogion a staff.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid fod y gronfa Tir Cyhoeddus yn gronfa refeniw reolaidd a bod y Gronfa Buddsoddi mewn Cymunedau wedi bod yn gronfa gyfalaf untro. Byddai'r rhain yn flaenoriaethau gwleidyddol a'r dewis o'r hyn yr oedd eu cyllideb yn ei gefnogi, lle'r oeddent eisiau dyrannu arian a ble'r oedd eu blaenoriaethau gwleidyddol. Felly, pe baent eisiau buddsoddi symiau sylweddol mewn Cymunedau, yna byddai angen i'r arian ddod o rywle arall.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynglŷn â'r trafodaethau a gafwyd gan y Cabinet ynghylch a ddylent roi'r gorau i rai o'r ymrwymadau hynny i ddarparu gwasanaethau statudol er mwyn gallu buddsoddi mwy o arian yn y meysydd a amlygwyd. Nid oedd yn siŵr ai cwestiwn i'r fforwm hwn ei drafod oedd hwn mewn gwirionedd ond credai y byddai'n cael ei drafod yn y dyfodol ac yn meddwl tybed a oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid ei fod yn ddewis gwleidyddol. Byddai swyddogion yn cyflwyno opsiynau, gostyngiadau awgrymedig, a phwysau ac yna mater i'r Aelodau fyddai gwneud eu dewisiadau, gan gynnwys y dreth gyngor a'r holl bethau sy'n mynd i gyllideb gytbwys.

Cynghorodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau bod llawer ohono yn ymwneud â darpariaeth statudol ac anstatudol ac er bod elfen ohono yn wleidyddol, roedd angen iddynt sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu cyllideb gytbwys a pharhau i fodloni anghenion y gwasanaethau statudol y mae angen iddynt eu cyflawni. Dywedodd nad oedd yr un ohonynt wedi ymuno â'r Cyngor eisiau torri gwasanaethau a chyllidebau a bod pobl yn cael eu heffeithio gan bethau sy'n weledol iddynt, felly gallai plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi profi gofal ymddangos yn llai gweledol i bobl oni bai ei fod yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Dyna oedd y cydbwysedd gofalus a'r hyn oedd angen iddynt gadw golwg arno wrth drafod gwasanaethau.

Cynghorodd y Dirprwy Arweinydd bod y broses gosod cyllideb yn ddewis gwleidyddol, a dim ond yr hyn a oedd ar gael ganddynt y gallent ei ddsbarthu ac a oedd yn dibynnu ar y setliad gan Lywodraeth Cymru a oedd hefyd yn dibynnu ar y refeniwiau sy'n dod o San Steffan. Roeddent yn blaenoriaethu cadw pobl yn ddiogel lle'r oedd adnoddau yn caniatáu, roedd hynny'n cynnwys cronfa tir y cyhoedd i gydnabod bod y gwariant yn y

gymuned yn bwysig a hynny mae pobl yn ei weld ac ar hynny maen nhw'n sylwi. Atgyfnerthodd mai dim ond swm y referniw sy'n cael ei ddyrannu maen nhw'n gallu ei ddsbarthu, ac mai'r broses gosod cyllideb oedd y fforwm i drafod y blaenoriaethau hynny. Daeth i ben trwy ddweud eu bod newydd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac y byddent yn cael ymateb o hynny yn ei dro.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad 2, monitro gostyngiadau yng nghyllideb 2021-22 COM 1, tudalen 42, a'r datganiad bod arbedion llawn wedi'u cyflawni ar y gyllideb weithredol gyda lefel y parciau a'r meysydd chwarae yn cael eu capio fel nad oeddent yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb a oedd ar gael a gofynnodd am eglurhad ynghylch a oedd hyn yn rhan o'r gronfa adfer neu'n ddwy gyllideb ar wahân.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau mai dwy gyllideb ar wahân oedd hi, y bu arbediad o fewn Cymunedau o £300 mil, yn bennaf yn seiliedig ar y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol a fyddai'n trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol, a'u bod yn edrych ar y gyllideb parciau cyffredinol i weld a gyflawnwyd unrhyw arbedion eraill. Ar yr un pryd, roeddent hefyd yn gweithredu consesiynau ar ffioedd caeau chwaraeon yn ystod Covid, felly nid oeddent yn codi tâl am y cyfleusterau a bod yr incwm yr oeddent wedi'i golli o ganlyniad wedi'i adennill trwy gronfa adfer Covid. Roedd arbediad ei hun trwy drosglwyddo asedau trwy drosglwyddo asedau cymunedol, yr oeddent wedi'i gyflawni, ac roedd yr incwm hwnnw wedi'i gynnwys ar wahân.

Holodd Aelod beth oedd wedi'i gyflawni'n gyfan gwbl drwy'r broses drosglwyddo CAT a gofynnodd a oedd modd rhannu'r cyfrifiadau.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau fod y prif arbediad wedi'i gyflawni drwy drosglwyddo asedau cymunedol, ac y gellid darparu'r wybodaeth.

Dyweddodd Aelod, er bod llawer o destun wedi bod ar dudalen 34 o'r adroddiad, ychydig o fanylion ariannol oedd, ac nid oedd unrhyw ddadansoddiad o'r £7M y credai y byddai'n ddefnyddiol i'r cyhoedd ei weld. Cyfeiriodd at y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar dudalen 35 a dywedodd ei bod yn bosibl ei bod yn aneglur i'r cyhoedd beth oedd yn cael ei wneud gyda'r cronfeydd hynny, a sut y byddai wedi cael ei gyfrifo'n wreiddiol bod angen cymaint â hynny. Roedd ar ddeall na ellid defnyddio Cynlluniau Cyfalaf ar referniw, ond roedd ffigurau yn yr adroddiad a oedd wedi cronni ac wedi aros yr un fath flwyddyn ar ôl blwyddyn. Credai y dylai'r cyhoedd wybod sut yr oeddent wedi'u cyfrifo ac ar gyfer beth y byddent yn cael eu defnyddio.

Dyweddodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid, pan oeddent yn rhagweld y mathau hynny o setliadau yr oeddent yn eu rhagamcanu a fyddai'n negyddol, a'u bod yn rhagweld efallai y byddai'n rhaid iddynt leihau niferoedd staffio, ailstrwythuro, a newid y ffordd yr oeddent yn darparu gwasanaethau, cafwyd ychydig o flynyddoedd o setliadau ychydig yn well. Dywedodd nad oeddent yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd eleni na'r ychydig flynyddoedd nesaf gan fod rhywun yn mynd i orfod talu am y pandemig ac na fyddai'n rhagweld y byddai ganddynt setliadau da am flynyddoedd lawer wrth symud ymlaen, felly fe'u neilltuwyd i'w galluogi i ostwng nifer y staff pe bai'n rhaid. Dywedodd bod disgwyl i chi yn rôl Swyddog Adran 151 fod yn ddarbodus ac nid oedd disgwyl i chi wario pob ceiniog oedd gennych. Roedd Archwilio Cymru wedi gofyn iddynt fod yn hirdymor yn eu ffordd o feddwl ac felly byddai'r arian wrth gefn a glustnodwyd yn eu galluogi i wneud hynny. Dywedodd ei bod eisiau adolygu'r hyn sydd ei angen arnynt ar gyfer y dyfodol o ran rheoli newid gan mai dyna'r mater sy'n wynebu pawb, nid y sector cyhoeddus yn unig, o ran sut y maent yn gweithio, sut y maent yn newid, felly byddai'r cronfeydd hynny'n cael eu hadolygu ac fel yr eglurwyd edrychir yn barhaus ar y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Ei chynghor i gloi fyddai na fyddent yn cael gwared ar y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid eu bod wedi ceisio cyflwyno'r wybodaeth yn yr adroddiad, ac y gallent fod wedi cynnwys mwy o fanylion ond wedyn ei fod yn gydbwysedd rhwng ei gwneud yn rhy fanwl ac anodd ei deall. Roeddent yn ceisio cyfleu'r prif negeseuon er enghraifft tabl chwech yn yr adroddiad, crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, roedd ugain llinell, ond o ran nifer gwirioneddol y cronfeydd wrth gefn roedd ganddynt tua thri chant o linellau, sy'n golygu ar gyfer pob llinell o'r adroddiad roedd nifer y cynlluniau, prosiectau ac ymrwymadau y tu ôl iddynt. Gan fynd yn ôl i'r cwestiwn yn ymwneud â chyllidebau'r Cyngor cyfan, esboniodd fod y rhan fwyaf o hynny yng nghyswllt eu prisiau cyflog a chyllidebau pwysau, nad oeddynt wirioneddol wedi talu unrhyw ddyfarniadau cyflog y flwyddyn ariannol hon gan mai dim ond ar ddiwedd chwarter dau y cafwyd cytundeb ar athrawon ac nid oedd cytundeb wedi'i gael o hyd ar ddyfarniad cyflog staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol. Roedd yn annhebygol iawn y byddai'n cael ei gytuno yn ystod y flwyddyn ariannol, felly gallai'r gyllideb aros yno tan tua diwedd y flwyddyn. Yr hyn nad oeddent yn ei wybod oedd a fyddai'n ddigon gan fod yr hyn a neilltuwyd yn seiliedig ar ragdybiaeth a bod yr undebau wedi gwrthod y cynnig diweddaraf, felly gallai fod yn uwch nag yr oeddent yn ei ragweld.

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid hefyd fod ganddynt gronfa wrth gefn ar gyfer y cyngor cyfan yr oeddent yn ei ddefnyddio i ariannu pethau fel tywydd garw yn ystod cyfnod y gaeaf. Eglurodd nad oedd llawer o gyllidebau ar wahân o fewn hynny ond yr hyn yr oeddent wedi ceisio ei nodi yn yr adroddiad oedd yr ansicrwydd, a bod chwyddiant fel enghraifft yn newid bob mis. Dywedodd fod un ddarpariaeth fawr a'r hyn nad oeddent yn ei wybod ar hyn o bryd oedd beth fyddai'r galw arnynt i gyd felly roeddynt wedi gwneud rhagdybiaethau ynghylch yr hyn y gallent fod ei angen yn eu barn hwy yn seiliedig ar wariant hanesyddol o ran yr hyn yr oeddent wedi'i ariannu a'r rhagamcaniad. Daeth i'r casgliad y gallai unrhyw beth ddigwydd dros y misoedd nesaf, ac roedd yn anodd rhoi ffigurau yn y meysydd hynny gan fod cymaint nad oedd wedi'i benderfynu ar gyfer y flwyddyn.

Diolchodd yr Aelod am yr eglurhad ond teimlai y byddai persbectif y cyhoedd ond yn gweld y ffigwr yn rhagamcanu tanwariant ac ni fyddent yn derbyn nac yn deall ei fod yn cynnwys gwahanol elfennau, byddai'n cael ei weld fel £7M dros ben neu o danwariant. Roedd yn deall yr anawsterau ac nad oeddent yn gwybod y ffigurau ond teimlai y gellid bod wedi cynnwys mwy yn yr adran i ddangos mwy o bositifrydd i'r cyhoedd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd iddynt am ddod a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiadau, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Gofynnodd y Pwyllgor i ystyriaeth gael ei rhoi i aildrefnu Monitro'r Gyllideb - adroddiadau Rhagolygon Refeniw Chwarterol yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i ystyried adroddiadau yn gyntaf ac i'w sylwadau gael eu bwydo'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ynghyd â'r adroddiad.
2. Gofynnodd y Pwyllgor i ddadansoddiad o'r £300 mil o arbedion sy'n debygol o gael eu cyflawni ar gyfer Cynnig Cyfyngiadau Cyllideb COM 1, Atodiad 2 - Monitro Gostyngiadau Cyllideb 2021-22, gan gynnwys y Trosglwyddiadau CAT a oedd wedi digwydd ac sydd i'w datblygu, gael ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

#### 49. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu, yn dilyn ymlaen o ystyriaeth y Pwyllgor o'r Flaenraglen yn y cyfarfod blaenorol, fod y Blaenraglen wedi'i diweddarau ar gyfer y Pwyllgor hwn ynghlwm fel Atodiad A a'r Blaenraglenni Gwaith ar



## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 1 RHAGFYR 2021

gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc 1, 2 ac 3 hefyd ynghlwm fel Atodiadau B, C a D, gan fod y Pwyllgor hwn yn gyfrifol am gydlynu a goruchwylio'r Blaenraglen Waith yn gyffredinol.

Roedd y Blaenraglenni Gwaith wedi'u diweddarau i ystyried y cyhoeddiad yng Nghyngor Tachwedd y byddai dyddiadau cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc Rhagfyr yn cael eu gohirio i ddyddiadau newydd ym mis Ionawr, ac ychwanegwyd cyfarfodydd ychwanegol o'r COSC ar 19 Ionawr ac 1 Chwefror, i gyd-fynd â'r amseriad setliad cyllideb Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

Dywedodd hefyd fod y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor o gyfarfodydd blaenorol ynghlwm fel Atodiad E.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol mewn eitemau ar gyfer cyfarfodydd i ddod ac ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith ar gyfer gweddill y calendr cyfarfodydd dinesig.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo ei Blaenraglen Waith yn Atodiad A; nodwyd Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgorau Craffu a Throsolwg Pwnc yn dilyn ystyriaeth yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor diweddar priodol yn Atodiad B, C & D a nodwyd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad E.

### 50. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:26

This page is intentionally left blank

Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

JPD Blundell  
A Williams

M Jones  
AJ Williams

RL Penhale-Thomas

RMI Shaw

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Howells

Swyddogion:

Lucy Beard  
Meryl Lawrence

Swyddog Craffu  
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Cynghorydd Stuart Baldwin

Cynghorydd Huw David

Deborah Exton

Cynghorydd Jane Gebbie

Lindsay Harvey

Carys Lord

Claire Marchant

Janine Nightingale

Cynghorydd Dhanisha Patel

Mark Shephard

Cynghorydd Charles Smith

Nigel Smith

Kelly Watson

Cynghorydd Hywel Williams

Arweinydd

Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau

Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol

Prif Weithredwr

Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Rheolwr Cyllid

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a

Rheoleiddio

Aelod Cabinet Adnoddau

52. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Alex Williams fuddiant personol yn yr adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ymrwymadau yn Chwarter 2, fel landlord preifat yn y Fwrdeistref Sirol.

53. PERFFORMIAD Y CYNGOR YN ERBYN EI YMRWYMIADAU YN CHWARTER 2 2021-22

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a dywedodd, oherwydd galwadau a blaenoriaethau newidiol, nad oedd yr un llinellau sylfaen na'r un cyfleoedd ar gyfer cymariaethau cenedlaethol mwyach. Dywedodd, er na fyddai cyflwyno grantiau busnes i fusnesau lleol, profi ac olrhain, na waith ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol, cynorthwyo gyda'r rhaglen frechu a chyflwyno TGCh yn ymddangos o ran y mesuriadau hynny, roeddent wedi cymryd llawer o adnoddau, ymdrech ac egni dros y cyfnod. Dywedodd mai un o'r heriau oedd cyflawni'r pethau hynny mewn ymateb i'r pandemig

byd-eang a'r argyfwng iechyd cyhoeddus, yn ogystal â rhedeg gwasanaeth da yn gyson o fewn eu mecanwaith cynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei gyflwyniad, ac yn dilyn hynny gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y cwestiynau canlynol.

Gofynnodd Aelod sut yr oedd y Panel Asesu Perfformiad Corfforaethol yn gweithredu a sut y cafodd perfformiad ei sgorio'n wrthrychol. Nododd fod y Panel wedi gwahodd Cadeiryddion Craffu a gofynnodd am y cysylltiad rhwng barn Cadeiryddion Craffu â'r Panel a'u Pwyllgorau Craffu. O ran statws Coch, Melyn a Gwyrdd a naratif yn y dangos fyrddau, roedd yn credu bod cyfle i bwysleisio bod perfformiad yn cael ei asesu'n wrthrychol.

Ymatebodd y Prif Weithredwr fod y broses Asesu Perfformiad Corfforaethol yn feganwaith hirdymor o fewn yr Awdurdod a bod amryw o iteriadau wedi bod. Dywedodd ei fod yn ymwneud â Chyfarwyddiaethau unigol yn cael eu sesiynau eu hunain lle byddant yn cyfarfod ag Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Craffu gydag Aelod her o'r Cabinet. Dywedodd mai ei ddiben oedd i bob Cyfarwyddwr fwrw ymlaen â'u dangosfyrddau a bod her a thrafodaeth i gael esboniad manwl lle nad oedd rhywbeth yn cyrraedd ei darged, y rhesymau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella pethau erbyn y chwarter a diwedd y flwyddyn ganlynol. Cefnogwyd y broses gan y Tîm Perfformiad a chyflwynwyd gwybodaeth yn gyson yn y dangosfyrddau

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn fodlon eu bod wedi craffu ar berfformiad drwy gydol y flwyddyn yn y Panel a'r Pwyllgor ac roedd yn ymwybodol bod y ddau gadeirydd Pwyllgor arall wedi derbyn gwybodaeth fanwl am eu Cyfarwyddiaethau i graffu ar y cynnwys.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Trosolwg Pwnc 2 ei bod wedi mynychu cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol i roi barn ar berfformiad ynghyd â'r Cadeiryddion Craffu eraill.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Trosolwg Pwnc 3 ei fod wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol a oedd fel arfer yn cynnwys dau Gadeirydd, dau Aelod o'r Cabinet a dau Gyfarwyddwr yn ogystal â'r Prif Weithredwr. Dywedodd ei fod hefyd wedi cael cyfarfodydd gyda'i Gyfarwyddiaeth i drafod unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg ar gyfer craffu posibl gan y Pwyllgor.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfodydd ar gyfer Chwarter 2 yn gyfarfodydd unigol a oedd yn canolbwyntio ar bob Cyfarwyddiaeth a'i pherfformiad yn hytrach nag un cyfarfod mawr ar gyfer holl berfformiad Cyfarwyddiaeth y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyfeiriodd Aelod at y cwestiwn gwreiddiol ynghylch sut mae Cadeiryddion Craffu yn bwydo'n ôl i'w Pwyllgorau Craffu ac yn ceisio barn ar berfformiad y Cyfarwyddiaethau yn eu cylchoedd gwaith.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu fod Cadeiryddion Craffu yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol i herio, ac yn dilyn hynny byddai dangosfyrddau perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol gan roi cyfle i'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor graffu ar berfformiad. Byddai Cadeiryddion Craffu wedyn yn ystyried canlyniadau ac argymhellion Craffu er mwyn dychwelyd a rhoi her yn yr Aseiad Perfformiad Corfforaethol nesaf.

Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Pwnc 3 y gellid ystyried rhywbeth nad yw'n perfformio'n dda mewn Cyfarwyddiaeth yn dilyn Aseiad Perfformiad Corfforaethol a Chraffu Perfformiad i'w hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor fel

eitem ar gyfer craffu yn y dyfodol, ond bod angen yr amserlenni ar gyfer ceisiadau am adroddiadau i fod yn gyflawn.

Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Pwnc 2 nad oedd digon o amser weithiau i newid yr agenda'n rhy agos at gyfarfod ac roedd angen iddynt reoli'r amserlenni ar gyfer adroddiadau ychwanegol.

Cytunodd y Cadeirydd ei fod yn ymwneud ag amseru a byddai'r Flaenraglen Waith ar gyfer y cylch nesaf o gyfarfodydd yn canolbwyntio ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb a dywedodd mai canlyniad yr Asesiadau Perfformiad Corfforaethol oedd y Dangosfyrddau a adroddwyd i'r Pwyllgor hwn i gael eu craffu.

Ymatebodd yr Aelod fod llawer o waith paratoi y gellid ei wneud cyn cyfarfodydd. Croesawodd y Panel Asesu Perfformiad Corfforaethol ac yn meddwl y gallai Craffu edrych ar berfformiad corfforaethol cyffredinol yr Awdurdod.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu, er ei bod weithiau yn rhy agos i gynnwys adroddiad pwnc newydd yn y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod nesaf, fod cyfle fel arfer i ail-flaenoriaethu pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Dywedodd, er eu bod yn canolbwyntio ar graffu ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chynigion y gyllideb ddrafft yn y cylch nesaf o gyfarfodydd, y byddai cyfle i aildrefnu neu ailflaenoriaethu pynciau yn gynnar yn y flwyddyn neu gynnig pynciau i'w hystyried ar gyfer y flaenraglen waith nesaf ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyfeiriodd Aelod at grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac y gallai gymryd blwyddyn i brosesu grant i bobl ag anableddau. Cyfeiriodd at yr ateb a gafodd ei adrodd yn ddiweddar i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol o'i sefyllfa allanol, nad oedd eto wedi effeithio ar yr amser aros i bobl sy'n derbyn grantiau.

Atebodd y Prif Weithredwr ei bod yn siomedig nad oedd wedi gwella ond gofynnodd am gadw'r dyfarniad hwnnw nes bod y broses newydd wedi'i sefydlu a'i bod yn flaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen. Dywedodd ei bod wedi bod yn anodd cael mynediad i gartrefi pobl, ymgysylltu â chontractwyr a chyflogi staff oherwydd y pandemig, ond ei fod yn gobeithio gweld gwelliannau o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud. Esboniodd fod rhai perchnogion tai wedi bod yn amharod i gael pobl yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod hwnnw. O ran asesiadau risg, roeddent wedi ceisio cadw eu mynediad i gartrefi pobl at waith hanfodol. Cafodd ei gydnabod fod angen newid y gwasanaeth ac roedd y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud yn atebion tymor canolig i hirdymor.

Gofynnodd Aelod a ellid mynd i'r afael yn rhannol â'r nifer uchel o ddiwrnodau i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl drwy stopio'r cloc os yw'n aros am wybodaeth gan barti arall, y tu allan i reolaeth y Gwasanaeth.

Atebodd y Prif Weithredwr fod rhai awdurdodau eraill yn ei fesur yn wahanol ond roedd gwneud hynny'n amheus gan ei fod yn gwella sut roedd perfformiad yn edrych ond na fyddai'n newid y cyfnod o amser i'r preswlydd na'r canlyniad. Ychwanegodd eu bod wedi gwrthod gwneud hynny, at ddibenion cysondeb a chymhariaeth perfformiad dros y blynnyddoedd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, er na fu unrhyw gyfyngiadau i'w hatal rhag mynd i gartrefi pobl, y byddai rhai o'r bobl wedi bod yn agored i niwed ac yn gwarchod.

Ychwanegodd yr Arweinydd eu bod wedi ailfodelu'r system Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac y byddai'r dangosydd yn gwella, ond nid ar unwaith.

Gofynnodd Aelod gan fod y swyddfeydd wedi'u cau yn ystod y pandemig a bod y staff wedi bod yn gweithio gartref, a oedd hynny wedi arwain at ddefnydd gwell a mwy doeth o adnoddau.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu wedi newid, felly o ran adnoddau roedd arbedion wedi'u gwneud, ond bu cynnydd yn y buddsoddiad gyda phobl sy'n gweithio gartref o ran pecyn TG i aelodau staff. Roedd yn broses barhaus, a byddai model darparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol yn newid.

Cyfeiriodd Aelod at ganran yr anfonebau diamheuol a gafodd eu talu o fewn 30 diwrnod gan iddynt wedi bod yn cyflawni'r targedau yn y chwarteri blaenorol a'r effaith ar y cyhoedd pe na bai anfonebau'n cael eu talu mor gyflym ag yr oeddent yn gobeithio. Esboniodd eu bod wedi clywed am fusnesau'n cau yn ystod y pandemig a bod prinder arian a gofynnodd a allai talu anfonebau ar amser fod yn cael effaith.

Dyweddodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd ganddi'r wybodaeth wrth law ond y gallai ei darparu a rhannodd bryder yr Aelod ynghylch effaith bosibl talu anfonebau'n araf ar fusnesau yn yr ardal.

Cyfeiriodd Aelod at y dangosydd eiddo gwag a'r targed i gael saith cartref gwag y flwyddyn yn ôl i feddiant ac i'w defnyddio ac roedd yn pryderu mai dim ond dau a gyflawnwyd.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Llesiant fod llawer o waith yn gysylltiedig, yn enwedig gydag eiddo gwag hirdymor. Gwyddai fod y Swyddogion wedi bod yn gweithio gydag eiddo a pherchnogion eiddo preifat yn ystod y pandemig a bod yr achosion a oedd wedi'u datblygu wedi bod yn llwyddiannus.

Awgrymodd Aelod y gellid cynnwys rhai sylwadau yn yr adroddiad lle nad oedd unrhyw sylwadau perfformiad ac er ei bod yn deall bod Covid wedi effeithio ar ddangosyddion, ychydig o sylwadau eraill a gynhwyswyd.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Llesiant y byddent yn edrych ar hynny ar gyfer y chwarter nesaf.

Gofynnodd Aelod am y gallu a'r cyfle posibl i adeiladu tai awdurdodau lleol fel yr oedd awdurdodau lleol eraill yn ei wneud.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Llesiant fod adolygiad o'r sefyllfa o ran tai a digartrefedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a'i fod yn deall bod hanner cant o gyfweiliadau wedi bod hyd yma gyda gwahanol randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod angen sawl strategaeth, y gallai adeiladu cartrefi fod yn rhan ohonynt, ond roedd yn ateb tymor canolig ac roedd problemau tymor byr. Dywedodd fod yr agenda Tai a Digartrefedd yn enfawr, ac y byddai angen sawl menter i ymateb iddi yn ddigonol wrth symud ymlaen.

Gofynnodd Aelod y byddai cynnwys rhai sylwadau ar y set dargedau yn ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod i'r Prif Weithredwr a oedd yn teimlo bod ganddo ddigon o adnoddau dynol i ddelio â'r mater o ddod ag eiddo presennol yn ôl i'r farchnad dai, gan fod angen system gadarn arnynt lle y gallent elwa o'r landlordiaid preifat hynny a ddaeth ymlaen a chynnig eu heiddo.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod sawl rhan o'r sefydliad a allai elwa o adnoddau ychwanegol, ond roedd yn ymwneud â blaenoriaethau a chydbwysedd. Wrth symud ymlaen pe gofynnid iddo nodi'r meysydd o bwysau mwyaf arwyddocaol, byddai'r rhain yn amlwg yn cynnwys Gofal Cymdeithasol ond hefyd Tai a Digartrefedd ac mae'n ddigon posibl y bydd angen iddynt ystyried ac addasu eu strwythurau i ymateb i hynny. Dywedodd fod sesiynau briffio wedi'u cynnal i geisio perswadio landlordiaid preifat i sicrhau bod eu cartrefi ar gael ond oherwydd bod y farchnad yn fywiog roedd pobl yn ymddangos yn awyddus i werthu.

Cyfeiriodd Aelod at y dangosydd perfformiad ynghylch Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, roedd yn meddwl tybed a oedd y cynnydd yn yr amser i ddarparu'r taliadau hynny wedi bod o ganlyniad i ddangosyddion perfformiad eraill lle'r oedd sylwadau wedi'u gwneud ynghylch taliadau hunan ynysu, nifer y galwadau sy'n mynd i mewn i'r Cyngor i ddelio â materion eraill a'r Taliad Cartrefi Cynnes gan Lywodraeth y DU.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y staff wedi bod o dan bwysau aruthrol gan fod lluo o bethau eraill y gofynnwyd iddynt eu cyflawni ar fyr rybudd. Esboniodd nad oedd ganddynt staff nac adnoddau ychwanegol ac yn ystod y flwyddyn roedd ganddynt gyfnodau sylweddol o salwch neu staff yn ynysu. Roedd yn her a welodd o ddydd i ddydd o ran sut yr ymatebodd yr Awdurdod i'r holl heriau hynny ar adeg pan oedd yn wynebu problemau sylweddol, yn enwedig yn ymwneud â'r gweithlu.

Ymatebodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid eu bod, o ran y Taliadau Tai Yn ôl Disgresiwn, wedi cael arian ychwanegol y flwyddyn honno, felly bu mwy o arian i geisio'i weinyddu. Roedd y rhain hefyd wedi cael sawl grant ychwanegol arall i'w gweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru; roedd y Taliadau Ynysu er enghraifft yn gymhleth ac roedd angen casglu llawer o wybodaeth ar gyfer pob cais felly roedd wedi cymryd cryn dipyn o amser staff a'r un staff oedd yn delio â nifer o grantiau gwahanol ar ben eu swyddi o ddydd i ddydd.

Cyfeiriodd Aelod at y targed a gynhelir ar y lefel honno oherwydd newidiadau posibl yn y mecanwaith cyflawni a gofynnodd a oeddent yn amau y byddai'n symud i sefyllfa well yn ystod y flwyddyn

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid, o ran y cyllid a oedd ar gael iddynt ar gyfer y flwyddyn, y gallai gadarnhau eu bod yn targedu'r bobl yr oeddent yn gwybod eu bod yn gymwys, a'u bod am wneud y defnydd gorau o'r cyllid i'r rhai sy'n gymwys

Awgrymodd Aelod y byddai cynnwys sylw bod staff yn gweithio ar roi taliadau am nifer o grantiau eraill yn ystod y pandemig yn ddefnyddiol, i egluro pam y bu cynnydd yn yr amser i ddarparu taliadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad B - Dangosfwrdd Perfformiad Cymunedau a dywedodd fod dangosyddion perfformiad yn wyrdd ond cynigiodd y gellid cynnwys sylwadau perfformiad fel tystiolaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y dangosfwrdd yn ffordd o fesur i ddangos ble'r oeddent, ond yr hyn oedd yn fwy perthnasol oedd pan aethant i fanylion y dangosyddion perfformiad y tu ôl i'r amcanion hynny lle dylent weld lefel o fanylion.

Cyfeiriodd Aelod at y sgôr statws gwyrdd, oherwydd yn achos nifer yr eiddo gwag yng nghanol trefi nid oedd targed ar gael iddynt.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod yr effaith economaidd mewn rhai ardaloedd wedi bod yn eithaf difrifol i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac wrth edrych

ar y sefyllfa adwerthu fyd-eang roedd cryn dipyn o gwmnïau wedi peidio â masnachu. Dywedodd eu bod am gael llinell sylfaen i weld faint o eiddo masnachol gwag a oedd yno o ganlyniad ar ddiwedd y pandemig ac yna defnyddio hynny fel eu man cychwyn i weithio ymlaen a gweld a allant helpu pobl i gael yr eiddo hynny'n ôl i gael eu defnyddio unwaith eto. Dywedodd beth yr oeddent wedi bod yn ei wneud a'r hyn nad oedd wedi dod i ben yn ystod y pandemig oedd defnyddio arian llywodraeth Cymru i drawsnewid arian trefi i roi grantiau yng nghanol eu trefi. Nid oedd y gwaith wedi stopio y tu ôl i'r llenni ac roedd llawer o hanes y tu ôl iddo ac roedd angen iddynt ddod o hyd i ffordd o'i gipio, a dyna pam y cafodd ei ystyried yn wyrdd.

Gofynnodd Aelod a oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn disgwyl i hynny newid yn chwarter tri.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd yn credu y byddent yn gweld unrhyw newid eleni a'r peth pwysig fyddai cael yr wybodaeth sylfaenol yn gywir ac yna edrych eto o chwarter un y flwyddyn nesaf lle'r oeddent a'r hyn yr hoffent ei gyrraedd o ran niferoedd eiddo yn ogystal â gweld gwelliant fel rhan o'u Cynllun Adfer Economaidd.

Gofynnodd Aelod a oedd hyn yn cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill ac a oeddent yn mynd yn ôl i sefyllfa feincnodi oherwydd Covid.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'n rhaid meincnodi llawer, ond iddynt hwy y rhan bwysig ar ôl y pandemig oedd sicrhau eu bod yn mesur y pethau a oedd yn cael effaith.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, pe baent yn berchen ar yr eiddo, y byddai ganddynt fwy o reolaeth drostynt, ond nad oedd yr Awdurdod yn berchen ar unrhyw eiddo manwerthu yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac roeddent yn aml yn delio â landlordiaid a oedd wedi'u lleoli'n genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Holodd Aelod am y coch yng Ngorchymyn Cydsyniad Datblygu 16.9 – Gwireddu targedau derbyniadau cyfalaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mai eu targed derbynebau cyfalaf oedd hyn, felly wrth gael gwared ar yr eiddo hynny byddent yn cael derbynneb, ac er ei fod yn ymddangos fel coch yn chwarter dau, byddai'n wyrdd erbyn chwarter pedwar.

Gofynnodd yr Aelod os mai cynllun ar gael pam yr oedd y dangosydd yn goch ac nid yn oren.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, os oeddent 10% yn is na'r targed, fod yn rhaid iddynt ei ddangos fel coch Esboniodd fod cydymffurfiaeth yn golygu bod yr holl ardystiadau wedi'u sefydlu, bod yr eiddo wedi'i archwilio ac nad oedd unrhyw ddiffygion ar y system a bod ardystiad wedi'i lanlwytho. Esboniodd mai'r meysydd mwyaf o risgiau oedd trydanol, nwy, clefyd y lleng filwr, a risg tân fel y byddent yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny wrth symud ymlaen. Dywedodd eu bod am gyflwyno system rheoli gwaith integredig newydd o'r enw Tech Forward a fyddai'n rhoi golwg fyd-eang ar eu system fel y gallent weld ble roedd pob adeilad wedi'i leoli a pha offer oedd ynddo. Byddent hefyd yn gallu gweld beth oedd y sefyllfa o ran cydymffurfio, a gallai contractwyr hefyd lanlwytho'r ardystiad i'r ffynhonnell honno. Daeth i'r casgliad, er ei fod wedi'i gategoreiddio'n goch, nad oedd yn golygu nad oedd eu hadeiladau'n ddiogel, ond nad oeddent yn cydymffurfio lle'r oedd angen iddo fod.

Gofynnodd yr Aelod a fyddai'n bosibl cynnwys diogelwch yn yr adroddiad hefyd fel y gallent weld yr agwedd ar ddiogelwch o'i gymharu â'r cydymffurfiaid.



Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau na fyddai'n lle priodol gan y byddai diogelwch yn rhan o gyfarfodydd a threfn lechyd a Diogelwch a fyddai ar wahân.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau lle'r oedd ganddynt adeiladau a gaewyd, ni fyddai unrhyw staff na mynediad i'r cyhoedd. Dywedodd eu bod wedi cael trafodaethau helaeth am sut yr oeddent yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth a diogelwch.

Gofynnodd Aelod am ba hyd y byddai'n ei gymryd i sefydlu safleoedd a oedd wedi'u cau a'u hail-agor eto e.e. Ystafelloedd newid Caeau Trecelyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod yn rhaid profi unrhyw gyfleuster a oedd â dŵr ynddo ar gyfer clefyd y lleng filwyr ac na ellid gwneud hyn tan saith diwrnod cyn agor cyfleuster ac er bod ganddynt gwmni i wneud y profion ar eu cyfer, roedd yn rhaid iddynt edrych ar orchymyn blaenoriaeth. Mynegodd yr hyn na allent ei wneud oedd bod yn amharod pan ddaeth i faterion iechyd a diogelwch ac nad oeddent yn mynd i agor y cyfleusterau nes eu bod yn gwybod eu bod yn ddiogel, ond roedd yn gwerthfawrogi y gallai hynny fod wedi bod yn rhwystredig mewn rhai achosion.

Cyfeiriodd Aelod at y dangosydd Trosglwyddo Asedau Cymunedol a oedd yn wyrdd a gofynnodd pam yr oedd Cyngor Cymuned Coety Uchaf ar y rhestr gan nad oedd yn credu bod unrhyw beth heb ei gwblhau. Holodd hefyd pam nad oedd sôn am y parciau chwarae gan fod pwysigrwydd a buddsoddiad mewn parciau chwarae wedi'u codi mewn cyfarfod blaenorol, ond nid oedd yn yr adroddiad i ddangos sut yr oeddent yn gwneud. Yn olaf, cyfeiriodd at y nifer uchel o Anhwyldeira Cyhyr Ysgerbydol (MSD), gan gynnwys diwrnodau salwch cefn a gwddf a gollwyd a chododd ei phryderon oherwydd bod llawer o godi a chario mewn Cymunedau, a'r potensial ar gyfer hawliadau o anaf sy'n gysylltiedig â gwaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y dylai'r Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol fod yn wyrdd gan fod pethau wedi symud ymlaen ers adroddiad chwarter un. Canmolodd y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'i dîm am wneud gwaith gwych ar ôl prosesu nifer sylweddol o drosglwyddiadau'r flwyddyn honno.

Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a dywedodd fod adroddiad yn cael ei baratoi a bod llawer o ddi-ddordeb a phartneriaethau cryf gyda Chynghorau Cymuned a Chlybiau Chwaraeon.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ynghylch y diwrnodau salwch a'r cwestiwn am anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, roedd ganddynt lawer o weithwyr llaw a gwasanaethau rheng flaen o fewn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, felly roedd ganddynt anafiadau i'w cefnau a'u gyddfau ac, ar y cyfan, gallai'r rhain fod o ganlyniad i amgylchiadau gwaith, ond efallai nad oeddent yn ganlyniad i arferion gwaith. Ym maes lechyd a Diogelwch, roeddent yn edrych ar fesurau a fyddai'n lleihau nifer yr anafiadau a byddent yn sicrhau bod eu dulliau gwaith yn ddiogel e.e., defnyddio monitorau ar offer torri gwair er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r peiriannau hyn ar bwynt penodol oherwydd amser a hyd ddirgryniadau. Roedd yn bwysig lliniaru risg cyn belled ag y bo modd.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau eu bod eleni wedi gwneud ymdrech ar y cyd i gael rhaglen gyfalaf ar gyfer gwella ardaloedd chwarae. Un o'r uchelgeisiau oedd adfywio ac adnewyddu'r holl ardaloedd chwarae ar draws y fwrdeistref o fewn y pum mlynedd nesaf. Dywedodd fod angen rhaglen dreigl o fuddsoddiad cyfalaf arnynt, sef yr hyn yr oeddent yn gweithio arno ar hyn o bryd a dangosydd rhaglen fel y gallent

ddweud faint yr hoffent ei dargedu yn y flwyddyn benodol honno a monitro'r cynnydd. Ar hyn o bryd roeddent yn gweithio ar y rhaglen honno'n mynd allan i dendro.

Cyfeiriodd Aelod at PAM/010 ar yr adroddiad a'r diffiniad, a oedd yn nodi bod canran y priffyrdd a arolygwyd o safon uchel neu dderbyniol o lendid ar gyfradd glendid clodwiw o 98.6% a gofynnodd beth oedd y safon honno.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau na allai ddarparu'r union ddiffiniad ond byddai'n gofyn i Reolwr Grŵp Priffyrdd a Mannau Gwyrdd ymateb i'r Aelod gyda'r meini prawf manwl.

Ymatebodd yr Aelod, er ei fod wedi edmygu'r tîm a oedd yn gweithio yn y Cwm, fodd bynnag, nid oedd eu cylch gwaith glanhau strydoedd yn cynnwys cael gwared ar bethau fel dail a oedd wedyn yn cael effaith ganlyniadol ar y tîm draeniau pan oedd draeniau'n cael eu rhwystro. Awgrymodd y gallai ysgubwyr fod yn ddefnyddiol i glirio'r strydoedd ar ei wardiau ef a wardiau eraill.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau eu bod wedi dechrau ailgylchu casglu sbwriel gwastraff stryd, felly roedd y gweithredwyr yn casglu eitemau y gellid eu defnyddio ar gyfer eu targedau ailgylchu. Nid oedd hynny'n golygu na allent glirio'r strydoedd hynny o ddeunyddiau eraill a byddai'n siarad â'i thîm am hyn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad C – Dangosfwrdd Perfformiad Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Gofynnodd Aelod sut olwg fyddai ar ysgol yr 21ain ganrif

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi'r gofynion o ran pob adeilad newydd, o ran datblygiadau ecolegol a gofynion ar gyfer addysgu a dysgu ac argaeledd i ardaloedd chwarae, a nodir i gyd yn ôl deddfwriaeth. Roedd sawl maes allweddol i sicrhau bod amgylcheddau'n ddiogel i ddefnyddwyr ac yn gynaliadwy ac nid yn unig o ddatgarboneiddio ac agweddau eraill ond yn gynaliadwy yn ariannol i'r Cyngor.

Gofynnodd yr Aelod a oedd i Ysgol yr 21ain Ganrif fod yn adeilad newydd gan y byddai hynny'n golygu oedi hir ac a ellid defnyddio arian ysgol i wella amgylchedd ysgolion presennol yn hytrach nag aros i ailadeiladu bob tro.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ganddynt Fwrdd Moderneiddio Ysgolion a oedd hefyd yn elwa o gynrychiolaeth gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Consortiwm Canolbarth y De ac Iechyd a Diogelwch. Drwy'r Bwrdd hwnnw maent yn gwneud penderfyniadau strategol, yna mewn ymgynghoriad ag Aelodau etholedig y Rhaglen Gwella Cyfalaf a aeth i'r Cyngor ac yna maent yn defnyddio hynny ar yr angen mwyaf. Esboniodd fod tair haen, sef gofynion Iechyd a Diogelwch, y lefel nesaf yw'r Gofyniad Strategol a'r drydedd lefel oedd cyfleusterau dysgu ychwanegol i athrawon yn yr ysgolion. Daeth i'r casgliad ei fod wedi mynd drwy ddull trwyadl ac nid dim ond rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a cholegau y gallai'r ysgolion elwa ohoni.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddai'n rhaid iddo fod yn adeilad newydd a dilyn manylebau penodol, ond ei fod yn fwy cymhleth na hynny ac nad oedd darparu ysgol newydd o reidrydd yn darparu ysgol well. Yr hyn a oedd yn bwysig oedd bod y staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn yr adeilad hwnnw.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bosibl i Raglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif ailddatblygu ysgolion presennol ond cyfaddefodd mai un o'r heriau gyda safleoedd presennol oedd eu bod wedi'u cyfyngu ac nad oedd ganddynt y gofod awyr agored a oedd yn ofyniad sylfaenol.

Cyfeiriodd yr Aelod at DCH 2.1, pwynt 11.1 a 2 a chanran y capasiti dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd yn bwysig gan ei fod yn dylanwadu ar gyllidebau ysgolion ac yn gofyn beth oedd yr oedi wrth ad-drefnu'r dalgylchoedd. Roedd o blaid rhoi tocynnau bws i blant ysgol uwchradd a cholegau, fel bod ganddynt y rhyddid i deithio.

Gofynnodd Aelod arall am eglurhad ynghylch a oedd y dangosyddion yn goch oherwydd nifer y lleoedd yn eu hysgolion a holodd ble'r oedd y gwargedau hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai un o'r heriau a oedd ganddynt o ran y dalgylchoedd oedd dewis y rhieni. O ran lleoedd gwag, roedd rhai ardaloedd o fewn yr awdurdod lleol lle cawsant eu pwysu am leoedd mewn rhai grwpiau blwyddyn ac roedd gan grwpiau blwyddyn eraill leoedd gwag. Roedd gan rai ysgolion leoedd gwag sylweddol, yn enwedig yn y sector uwchradd. Roeddent wedi edrych ar sganio'r Cynllun Datblygu Lleol am leoedd ychwanegol. Roedd gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo drwy'r Bwrdd Moderneiddio Ysgolion i edrych ar gynnydd posibl. Roedd llawer o waith yn mynd rhagddo yn y cefndir, ac yn amodol ar rywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

O ran y tocynnau bws, roeddent yn awyddus iawn, yn enwedig gyda dysgwyr ôl-16 i roi'r hyblygrwydd i bobl ifanc fynychu cyrsiau lle'r oedd angen iddynt a chynyddu eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Roedd disgwyl adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar y sefyllfa o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol, gan ei bod yn gwneud synnwyr i gysoni eu blaenoriaethau hirdymor â pholisi gan Lywodraeth Cymru.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei fod yn sefyllfa gymhleth a bod cyfres o heriau. Yr allwedd yn y tymor hwy oedd edrych ar eu Cynllun Datblygu Lleol, ac roedd Adran Addysg y Cyngor yn cyfathrebu â'r Adran Gynllunio o ddechrau'r broses cynllunio datblygu lleol. O ran y tocyn bws 16 oed a throsodd, roedd ganddynt uchelgais ehangach ar gyfer tocyn bws mwy cyffredinol i bobl ifanc, yr oeddent wedi bod yn siarad â First Cymru yn ei gylch, ond byddai angen i ddeddfwriaeth ddod gan y Llywodraeth ynghylch comisiynu gwasanaethau trafndiaeth.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd ar bwynt WBO3 2.5 gyda'r ffyrdd o addasu o ddefnyddio technoleg, dywedodd, er bod offer wedi'i gyflwyno i ysgolion a bod y sefyllfa'n parhau, ei bod wedi'i gweld yn adrodd i *Childline* y bu cynnydd o 40% mewn cam-drin ar-lein ac a oedd hynny'n dod o fewn cylch gwaith y dangosydd hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd fel y dangosydd yn ymwneud mwy â defnyddio systemau technolegol. Mynegodd fod y cwestiwn a godwyd yn un pwysig a bod diogelu o fewn pob agwedd ar yr hyn a wnânt. Esboniodd fod ganddynt 23,000 o ddefnyddwyr ynghyd â 3000 o staff mewn ysgolion, ac roedd angen iddynt sicrhau eu bod yn dilyn y polisïau priodol.

Holodd Aelod am yr 'absenoldeb salwch ychwanegol yn ôl rhesymau' a gofynnodd a oedd hynny'n cynnwys yr holl staff, gan eu bod wedi dweud eu bod wedi gwahaniaethu rhwng staff yr ysgol a'r maes gwasanaeth, ac a oedd y tabl terfynol yn cynnwys yr holl staff. Roedd hi hefyd yn meddwl tybed, wrth edrych ar y rhesymau dros absenoldeb oherwydd salwch, os mai un o'r prif resymau oedd anafiadau cyhyrsgerberbydol yn ymwneud â gwaith a damweiniau mewn ysgolion, gan ei fod yn nifer uchel ac nad oedd llawer o godi a chario mewn ysgolion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai angen iddo holi'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch y ddau dabl a'r ffigurau diwethaf. Roedd gan y tabl cyntaf ar yr ochr chwith eu swyddogion a'r un nesaf y 3000 o staff ysgol. O ran yr achosion ac a oeddent yn ymwneud â'r anaf diwydiannol, roedd yn ymddangos eu bod yn anghyson gan eu bod yn adrodd am achosion isel o anafiadau diwydiannol ac yn uwch gyda materion ysgerbydol cyhyrol, ond byddai'n gwirio gydag Adnoddau Dynol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad D - dangosfwrdd perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cyfeiriodd Aelod at y rhai sy'n gadael gofal a materion yn ymwneud â llety a sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd a gofynnodd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgor a sefydlwyd i gau'r bwlc hwnnw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y byddai gweithdy manwl yn cael ei gynnal rhwng cydweithwyr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol lle byddent yn gweithio drwy'r asesiad sylfaenol a fyddai'n arfer da o ran llety, y rhai sy'n gadael gofal a phlant â phrofiad o ofal. Fe'i datblygwyd ychydig flynyddoedd ynghynt gan Barnardos a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol nesaf y Cabinet i nodi ble'r oeddent, lle'r oedd eu meysydd arfer da, pe bai unrhyw fylchau a'u blaenoriaethau'n symud ymlaen. Dywedodd mai'r peth pwysicaf oedd bod plant gofal yn cael y flaenoriaeth y dylent ei chael ar gyfer llety, ond hefyd nad oedd unrhyw gymhellion gwrthnysig i blant a phobl ifanc ddatgan eu bod yn ddigartref i gael y cymorth, a byddai'r manylion yn cael eu hystyried yn y gweithdy.

Cyfeiriodd Aelod at y strwythur staffio a gofynnodd a oedd diweddariad.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y gweithlu yn fater o bwys ac yn brif flaenoriaeth. Esboniodd fod dau faes allweddol i'w herio o ran y gweithlu, un ohonynt oedd y gweithlu gofal cartref, lle'r oedd nifer o gamau gweithredu ar waith. Y maes allweddol arall iddynt o ran y gweithlu oedd gwaith cymdeithasol plant, dywedodd eu bod wedi bod drwy ddau gyfnod ailstrwythuro o fewn eu timau gwaith cymdeithasol plant a oedd wedi arwain at strwythur gwahanol o ran cyflog, lle mae gweithwyr cymdeithasol plant profiadol yn rhan o'u gwaith prisio, a ble i osod hysbysebion ar y graddau uwch hynny. Pe na baent yn llwyddiannus, byddent yn edrych ar amrywiaeth o fecanweithiau cymorth eraill ar gyfer eu gweithwyr cymdeithasol ac efallai y bydd angen iddynt ystyried cais drwy'r polisi atodol i'r farchnad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar eu bod yn hysbysebu eu holl swyddi gwaith cymdeithasol a gofal drwy ymgyrchoedd recriwtio ar draws y Fwrdeistref Sirol a byddent yn gwerthfawrogi'r holl Aelodau'n rhannu'r wybodaeth hon ac yn annog pobl i ymgymryd â'r rolau hyn.

Gofynnodd Aelod a oedd dangosydd ar gyfer nifer yr ymweliadau cartref statudol i blant.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei fod yn un o'u mesurau perfformiad allweddol ac yn un o'r mesurau cenedlaethol o ran ymweliadau statudol â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Esboniodd ar ddechrau'r pandemig eu bod yn gweithio mewn ffordd a aseswyd o ran risg ond ers peth amser ac yn unol â model gweithredu Llywodraeth Cymru roedd yr ymweliadau wedi bod wyneb yn wyneb, gan fod y risg o beidio ag ymweld wedi cael eu hystyried yn uwch. Dywedodd am yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu o ran perfformiad yn erbyn ymweliadau statudol ac edrychwyd ar y mesurau perfformiad hynny'n wythnosol o fewn y Tîm Rheoli Gwasanaethau Plant ac yn fisol o fewn Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.

Cyfeiriodd Aelod at nifer y bobl 65 oed a throsodd a gafodd eu cyfeirio at y Tîm Adnoddau Cymunedol ac o ystyried y cyd-destun yr oeddent wedi bod yn gweithio ynddo yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd wedi bod yn llawer is. Bu llawer o sgwrsio am y gweithlu, a thybiodd y byddai'r atgyfeiriadau hynny'n cynyddu, o bosibl yn chwarter tri, yn chwarter pedwar ac i mewn i'r flwyddyn nesaf, a gofynnodd a oedd ganddynt y gallu i ddelio â'r hyn a allai fod yn ddylifiad sylweddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mai'r pryder oedd bod eu system gyfan o dan bwysau a oedd yn golygu bod ganddynt nifer o bobl a oedd ag oedi wrth drosglwyddo gofal yn y Tîm Adnoddau Cymunedol a byddai pobl a oedd â'u hanghenion gofal yn cael eu diwallu ac yn elwa o becynnau gofal cartref hirdymor ond heb gael y cyfle hwnnw i gael eu hail-alluogi. Roedd cefnogi pobl i gadw ac adennill annibyniaeth yn cymryd mwy o'u gofal hirdymor a oedd yn adnodd prin iawn a gwerthfawr, felly roedd yn bryder sylweddol ac yn rhywbeth yr oeddent i'w ystyried wrth gynllunio ar gyfer yr anghenion a oedd yn dod drwy weithio gyda'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach gan Aelodau'r Pwyllgor i'r Gwahoddedigion ar gyfer yr adroddiad hwn, diolchodd i'r Gwahoddedigion am ddod i'r cyfarfod a dywedodd y gall Gwahoddedigion nad oedd wedi gofyn i fynychu ar gyfer yr adroddiad nesaf adael y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Hynny gan roi sylw i ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad.

#### 54. **CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-23 ADOLYGIAD AR GYFER 2022-2023**

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad, ar y Cynllun Corfforaethol a oedd wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2022-23. Esboniodd fod y broses wedi cynnwys Prif Swyddogion a Thimau Rheoli, gan eu galluogi i edrych ar ba flaenoriaethau a fydd yn y dyfodol. Dywedodd mai'r hyn a welsant yn y rhaglen wedi'i diweddarau oedd y cynllun diwygiedig ar gyfer y flwyddyn i ddod a byddai perfformiad yn erbyn y Cynllun yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor hwn yn ogystal â rhai agweddau sy'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, felly byddai cyfleoedd i Aelodau edrych ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd Aelod i'r Arweinydd a oedd yn credu y byddai'r Cynllun Corfforaethol yn ddigon uchelgeisiol wrth symud ymlaen wrth iddynt symud allan o'r pandemig.

Ymatebodd yr Arweinydd ei bod wedi bod yn anodd gyda'r pandemig i fod mor uchelgeisiol ag y byddent wedi dymuno ond nad oedd wedi diflannu a dyma'r her fwyaf yr oeddent yn ei hwynebu o hyd. Fodd bynnag, byddent yn ceisio adolygu'r Cynllun Corfforaethol a'i wneud mor uchelgeisiol â phosibl. Roedd am wneud pwynt er bod rhai o'r heriau hyn wedi bodoli ers peth amser ac nid oeddynt yn mynd i ddiflannu pan ddaeth y pandemig yn endemig.

Roedd y Prif Weithredwr am ychwanegu mai hwn oedd yr adolygiad diwethaf o'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ac un o'r pethau y byddent yn ei wneud ar ôl yr etholiad, er y gallai llawer o'r heriau a'r blaenoriaethau aros yr un fath, efallai y bydd ffocws gwahanol a fyddai'n bwydo i mewn i'r Cynllun Corfforaethol newydd. Esboniodd na fydddech, mewn rhai ffyrdd, yn disgwyl i flwyddyn olaf cynllun wyro'n rhy bell o'r hyn yr oeddent wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf a chytunodd â'r Arweinydd fod Covid wedi creu lefel o ansicrwydd a oedd yn ei gwneud yn anodd symud ymlaen. Dywedodd eu bod wedi cael pwysau a newidiadau ychwanegol i'r ffordd eu bod wedi cyflwyno rhai

gwasanaethau a fyddai angen eu hystyried a dod yn rhan o'r asesiad ar gyfer datblygu'r Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach gan Aelodau'r Pwyllgor i'r Gwahoddedigion ar gyfer yr adroddiad hwn, diolchodd i'r Gwahoddedigion am ddod i'r cyfarfod a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Hynny gan roi sylw i ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad.

55. **STRATEGAETH GYFALAF 2022-23 I 2031-32**

Cyflwynodd Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad ac esboniodd fod y gwariant a'r buddsoddiad cyfalaf sy'n cael eu hymgydryd gan awdurdodau lleol yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth. Un gofyniad oedd pob gan bob awdurdod lleol Strategaeth Gyfalaf yn ei lle a dylid dangos tystiolaeth bod y cynlluniau'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei diweddarau'n flynyddol i nodi newid mewn cynlluniau a chyfarwyddiadau ac yna roedd rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r strategaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion ac ychwanegu unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ar yr adroddiad ei hun. Gan nad oedd sylwadau na chwestiynau, diolchodd i'r Gwahoddedigion am eu presenoldeb yn y cyfarfod a dywedodd y gallan nhw adael y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Hynny gan roi sylw i ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad.

56. **DIWEDDARIAD BLAENRAGLEN WAITH**

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Craffu yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'r Flaenraglen yn y cyfarfod blaenorol, fod y Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer y Pwyllgor hwn wedi'i hatodi fel Atodiad A. Eglurodd fod y Flaenraglen Waith ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc 1, 2 a 3 hefyd wedi'u hatodi fel Atodiadau B, C a D gan fod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am gydyntu a goruchwyllo'r Flaenraglen Waith yn ei chyfarwydd.

Atodwyd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor o gyfarfodydd blaenorol yn Atodiad E.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol mewn eitemau ar gyfer cyfarfodydd sydd ar y gweill ac ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A; nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu yn dilyn ystyriaeth yn y cyfarfodydd perthnasol yn Atodiadau B, C a D a nododd Daflen Weithredu Monitro'r Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad E.

57. EITEMAU BRYD

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:43

This page is intentionally left blank



Presennol

Y Cyngorydd – Cadeirydd

JPD Blundell

A Williams

AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, HJ David, DG Howells a/ac KL Rowlands

Swyddogion:

Lucy Beard  
Meryl Lawrence

Swyddog Craffu  
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Cyngorydd Stuart Baldwin  
Debra Beeke  
Cyngorydd Jane Gebbie

Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol  
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau  
Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Lindsay Harvey  
Carys Lord  
Claire Marchant

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd  
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid  
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Janine Nightingale  
Cyngorydd Dhanisha Patel  
Mark Shephard  
Cyngorydd Charles Smith  
Kelly Watson

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau  
Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol  
Prif Weithredwr

Cyngorydd Hywel Williams

Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio  
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a  
Rheoleiddio  
Aelod Cabinet Adnoddau

65. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Dyweddodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu nad oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, felly'n unol â Chyfansoddiad y Cyngor gofynnodd i'r Pwyllgor enwebu Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cyngorydd Blundell yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

66. DATGAN BUDDIANT

Dim

67. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, dyddiedig 19 Ionawr ac 1 Chwefror 2022 yn gywir.

**68. MONITRO CYLLIDEB 2021-22 - RHAGOLYGN REFENIW CHWARTER 3**

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2021. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu effaith bosibl gostyngiad mewn incwm o'r dreth gyngor, gan fod pobl wedi dioddef caledi ariannol a bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r rhai a oedd wedi wynebu anhawster wrth dalu eu treth gyngor. Fodd bynnag, roedd y gyfradd gasglu yn dal yn debygol o fod yn is nag arfer, a byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Ynghyd â'r effaith ar y dreth gyngor, dywedodd y gallai diwedd y cynllun ffyrlo a'r posibilrwydd o gyfyngiadau newydd mewn ymateb i amrywiolyn Omicron Covid olygu bod lefel uwch yn gymwys i dderbyn cymorth ar gyfer y dreth gyngor, ond byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Gorffennodd drwy gyfeirio at yr argymhelliad a nodwyd yn adran 9 yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid am ei chyflwyniad, ac ar ôl hynny gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y cwestiynau canlynol:

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad wedi cael ei lunio cyn Cabinet mis Ionawr, hyd at ddiwedd chwarter 3, a'i bod yn ymddangos yn hwyr iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu yn y cyfarfod hwn. Gofynnodd i'r Awdurdod ystyried yn y dyfodol a allai'r Pwyllgor gael gweld yr adroddiad yn gynharach, fel bo modd i'r Cabinet ystyried argymhellion o hyn allan.

Dywedodd Aelod y byddai wedi bod yn well pe baent yn edrych ar Chwarter 4, yn hytrach nag edrych yn ôl ar Chwarter 3. Credai y gallai craffu fod yn fwy dylanwadol a chefnogol i'r Cabinet pe bai modd i'r Pwyllgor gynnig safbwyntiau a sylwadau pan fyddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet.

Cynigiodd Aelod y gellid amseru adroddiadau gyda'r Cabinet fel bo modd craffu arnynt cyn penderfyniadau, er mwyn gwneud argymhellion ynghylch adroddiadau ar berfformiad a chyllid.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall y syniad o gael yr wybodaeth ddiweddaraf mewn egwyddor, ond ei bod hi'n ddigon posib mai logisteg ac ymarferoldeb oedd wrth wraidd hyn.

Cytunodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod hyn yn rhywbeth y gallent ei ystyried yn y dyfodol, gan ystyried pryd yr oeddent yn adrodd wrth y Pwyllgor am y sefyllfa ariannol.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.1.4 yr adroddiad ynghylch cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, a'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb o gymharu â'r flwyddyn gynt, ac na ellid cynnal hynny. Gofynnodd am y cysylltiad â dalgylchoedd ysgol a beth oedd sefyllfa'r cyngor o ran cynllunio ac adolygu dalgylchoedd ysgol yn y tymor hir, a'r llinell amser ar gyfer hynny.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gwaith eisoes wedi'i gyflawni gan y Gyfarwyddiaeth ar hyn, a'i bod yn broblem yr oedd pob awdurdod lleol yn ymgiprys â hi. Dywedodd eu bod wedi edrych ar amrywiaeth o dulliau er mwyn lleihau costau, fel olrhain cerbydau'n effeithiol i sicrhau bod y llwybrau byrraf yn cael eu defnyddio, yn ogystal â gweithio gyda rhieni i weld a allent gefnogi llwybrau cludiant mwy unigol er mwyn mynd â'u plant i'r ysgol. Eglurodd mai'r pwysau mwyaf a gafwyd yn ddiweddar oedd y pwysau ariannol ar ddarparwyr cludiant, a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddent yn gweld cynnydd yng nghostau darparu gyrwyr a chluant o fewn yr ardaloedd trafniadaeth hynny. O ran y dalgylchoedd, dywedodd fod angen

iddynt feddwl yn strategol gan y byddai cyflwyno un newid yn effeithio ar ardal arall. Eglurodd fod y mater yn gymhleth, ac fel unrhyw newid mewn polisi, ni fyddai modd cyflwyno newid ar unwaith i'r polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio ei bod yn broblem hirdymor a oedd y tu hwnt i bwerau Awdurdod Addysg Cyngor unigol, ond y byddai'r adolygiad hirddisgwyliedig o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan Lywodraeth Cymru o gymorth yn hyn o beth. Dywedodd na fyddai adolygu dalgylchoedd ynddo'i hun yn ddigon i ddatrys problemau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Gofynnodd Aelod, ac ystyried y pwysau ar gyllidebau yn y maes polisi penodol hwnnw, a oedd y ddarpariaeth hael sydd ganddynt ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gynaliadwy wrth symud ymlaen.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai un o'r pethau yr oedd y polisi'n ei wneud oedd amddiffyn brodyr a chwiorydd a dysgwyr mewn gwahanol gyfnodau addysg. Wrth i ddysgwyr symud o gyfnod i gyfnod, byddant yn naturiol yn llai cymwys i dderbyn trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim. Eglurodd y byddai'r ymarfer graddedig yn lleihau'r effaith ar gyllidebau trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol yn y tymor hir. Cytunodd fod gan Ben-y-bont ar Ogwr bolisi hael, ond byddai llai o ddisgyblion yn gymwys o dan y polisi hwnnw wrth gyfyngu'n raddol arno. Dywedodd mai'r broblem fwyaf oedd y pwysau chwyddiant yr oeddent yn eu wynebu wrth fynd i'r farchnad. Eglurodd mai'r hyn yr oeddent yn awyddus i'w wneud oedd gweld pa ganllawiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, wedyn mater i'r Cabinet fyddai penderfynu a ddylid newid y polisi ai peidio.

Mynegodd Aelod fod angen iddynt edrych ar ddalgylchoedd wrth adeiladu ysgolion newydd, neu byddai hynny'n achosi problemau. O beidio edrych ar hynny na gwranddo ar Aelodau lleol a oedd yn adnabod eu wardiau, dywedodd na fyddai'r broses yn symud ymlaen. Rhoddodd enghraifft lle'r oedd y Cyngor yn talu am fysis yng Nghoety i blant nad oedd ganddynt balmant addas i allu cerdded i'r ysgol, er y gallent weld yr ysgol o'u cartref, a bod yn rhaid parhau i dalu am y bysus tra'r oedd y palmant heb ei osod. Roedd angen gwneud cynnydd ar yr agweddau hyn cyn gynted ag a oedd yn bosibl.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai un o'r heriau wrth newid dalgylchoedd oedd y gallai datrys rhai problemau arwain at broblemau eraill. Dywedodd nad oeddent eisiau trefnu bysus ychwanegol pe bai modd osgoi hynny. Lle'r oedd bws eisoes yn cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion ar lwybr arall, yn amlwg byddent yn manteisio ar hynny ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad. Ni fyddai hynny'n golygu bod angen bws ychwanegol, ond yn hytrach yn golygu defnyddio'r ased neilltuol hwnnw ar gyfer y llwybr dan sylw. Cytunodd i gyfarfod â'r Aelod i roi'r newyddion diweddaraf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y dylent fod yn hynod ofalus gyda dalgylchoedd gan fod unrhyw newid yn creu sgil-effeithiau. Dywedodd y dylai'r holl Gynghorwyr gadw golwg agos ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd, ac edrych ar y modd yr oedd hynny'n mynd i effeithio ar deithiau i'r ysgol.

Cyfeiriodd Aelod at dwf y gyllideb ym mharagraff 4.1.6, a'r ffaith y gallai fod yn annigonol i fodloni'r galw cynyddol o ran niferoedd digartref, a gofynnodd a oedd unrhyw ragolygon ynghylch beth fyddai'r swm digonol, neu a oedd hynny'n anhysbys, gan nad oeddent yn gwybod faint o bobl oedd yn mynd i'w cyflwyno eu hunain yn digartref.

Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Llesiant nad oeddent yn gwybod, ond bod y niferoedd wedi sefydlogi ar tua 300. Dywedodd eu bod yn gweld

cynnydd mewn teuluoedd a rhai teuluoedd un rhiant gydag un neu ddau o blant, ond bod yna gymysgedd a'i bod yn amhosib rhagweld beth fyddai'r galw.

Cyfeiriodd yr Aelod at y cronfeydd wrth gefn gwerth £3m a oedd wedi'u clustnodi ym mharagraff 4.1.8, a gofynnodd sut roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cymharu â chronfeydd awdurdodau lleol eraill.

Eglurodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd yn gallu cymharu ag awdurdodau lleol eraill ar y pryd, gan nad oeddem wedi cyrraedd diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig roedd cronfeydd wrth gefn yr holl awdurdodau lleol wedi cynyddu, ac roedd peth o'r cynnydd hwnnw'n deillio o arian a gyflwynwyd yn hwyr gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yn tybio bod eu cronfeydd wrth gefn yn arbennig o uchel, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, oherwydd tybiai fod cronfeydd wrth gefn pob un ohonynt wedi cynyddu, ond roedd yr holl gronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer darnau penodol o waith.

Gofynnodd Aelod am gadarnhad ynghylch a oedd yr ychwanegiad o £3m at y gronfa gyfalaf heb ei dyrannu i'w defnyddio yn erbyn pwysau a ragwelwyd ar gyfalaf wedi'i gynnwys yn y cyfanswm o £9m yn y gronfa gyfalaf heb ei dyrannu.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y swm wedi'i gynnwys yn y gronfa honno ac nad oedd wedi'i dyrannu.

Cyfeiriodd Aelod at bwynt 4.1.10 a gofynnodd pa gyllidebau oedd yn gyfnewidiol o fewn y Cyfarwyddiaethau, yn enwedig o ran eu rheolaeth gyllidebol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Gwasanaethau Plant yn gyllideb gyfnewidiol, gan ei bod yn seiliedig ar y galw a'u bod weithiau'n gorfod trefnu lleoliadau preswyl unigol, a allai fod yn gostus iawn gan effeithio ar y gyllideb, ac yn anodd i'w rhagweld yn nhermau'r gyllideb. Dywedodd hefyd fod y gyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd wedi datblygu'n fwyfwy anodd i'w rhagweld ar ôl Covid, gan fod yr angen wedi cynyddu.

